


DOGFEN
8.3

Datganiad o Resymau

National Grid (Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru)

*Regulation 5(2)(h) of the Infrastructure Planning
(Applications: Prescribed Forms and Procedure) Regulations 2009*

Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru

Cyfrol 8

Dogfen 8.3 Datganiad o Resymau

(Cyfieithiad Cymraeg o Ddogfen 3.1)

Yn unol â Rheoliad 5(2)(h) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009
Cyfeirnod y Cais :

National Grid
National Grid House
Warwick Technology Park
Gallows Hill
Warwick
CV34 6DA

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

Rheolaeth y Ddogfen			
Priodweddau'r Ddogfen			
Sefydliad	National Grid		
Awduron	Steve Harkin/Ian Williams		
Cymeradwywyd gan	Jacqueline Stoddart		
Teitl	Datganiad o Resymau		
Cyfeirnod y Ddogfen	8.3		
Hanes y Fersiynau			
Dyddiad	Fersiwn	Statws	Disgrifiad/Newidiadau
03 09 2018	A	Terfynol	Argraffiad 1af

Mae'r dudalen hon yn wag yn fwriadol

CYNNWYS

1	CYFLWYNIAD	1
2	DIBEN Y DDOGFEN	3
2.1	PAM MAE ANGEN Y DATGANIAD HWN O RESYMAU	3
3	YR ANGEN AM Y DATBLYGIAD ARFAETHEDIG	6
3.1	Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A'R DATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL	6
3.2	YR ACHOS ANGEN	7
3.3	DATBLYGU'R PROSIECT	7
3.4	DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU A GEISIR	9
3.5	CAFFAEL GORFODOL	10
3.6	PWERAU DEFNYDDIO DROS DRO	13
3.7	DEFNYDD O DIR DROS DRO GAN SP MANWEB ER MWYN DARPARU GWAITH SP MANWEB	13
3.8	DEFNYDDIO TIR DROS DRO ER MWYN CYNNAL A CHADW'R DATBLYGIAD AWDURDODEDIG	14
3.9	DEFNYDD DROS DRO O ISBRIDD O DAN STRYDOEDD AC AWYROFOD UWCHBEN STRYDOEDD	14
3.10	PWERAU ERAILL O BWYS	15
4	DISGRIFIAD O'R TIR Y MAE'R PWERAU CAFFAEL GORFODOL A'R PWERAU ERAILL YN BERTHNASOL IDDO	18
4.1	Cyflwyniad	18
4.2	TIR Y GORCHYMYN	19
4.3	DYLUNIAD AC YMGYNGHORI	21
4.4	HAWLIAU TRAMWY CYHOEDDUS	23
5	AT BA DDIBEN Y MAE ANGEN Y PWERAU	24
5.1	CYFFREDINOL	24
5.2	DOSBARTHIADAU	24
5.3	TABLAU YN DANGOS AT BA DDIBENION Y GELLIR CAFFAEL TIR	25
6	Y CYFIAWNHAD DROS Y PWERAU CAFFAEL GORFODOL	123
6.1	ADRAN 122 O'R DDEDDF	123
6.2	ADRAN 122(2)	124
6.3	ADRAN 122(3)	125
6.4	OPSIYNAU ERAILL YN HYTRACH NA CHAFFAEL GORFODOL	125
6.5	OPSIYNAU ERAILL YN HYTRACH NA'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG	128
6.6	MAE'R DIDDORDEB ARFAETHEDIG YN Y TIR YN DDILYS, YN ANGENRHEIDIOL AC YN GYMESUR	128

6.7	Y DEFNYDD O'R TIR SYDD I'W GAFFAEL	129
6.8	Y CYLLID SYDD AR GAEL I ROI IAWNDAL	130
7	DULL Y NATIONAL GRID O GAFFAEL TIR A HAWLIAU DROS DIR DRWY GYTUNDEB	131
7.1	STRATEGAETH	131
7.2	CEISIO CAFFAEL	132
7.3	CYNNYDD GYDA'R PROSES AU CAFFAEL	133
8	CEISIADAU, GORCHMYNION A CHYDSYNIADAU CYSYLLTIEDIG	135
9	TIR CATEGORI ARBENNIG	136
10	TIR Y GORON	141
11	Y CYFIAWNHAD DROS YMYRRYD Â HAWLIAU DYNOL	146
11.1	Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL : YR HAWLIAU PERTHNASOL YN Y CONFENSIWN	146
11.2	CYDYMFFURFIO Â'R CONFENSIWN A'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL	147
12	CASGLIADAU	149
12.1	YR ANGEN AM BROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD Cymru (PENNOD 3 YN Y DDOGFEN HON)	149
12.2	CWMPAS Y PWERAU CAFFAEL GORFODOL (PENNOD 4 YN Y DDOGFEN HON)	149
12.3	DISGRIFIAD O'R TIR Y BYDD PWERAU GORFODOL A PHWERAU ERAILL YN BERTHNASOL IDDO (PENNOD 5 YN Y DDOGFEN HON)	149
12.4	AT BA DDIBEN Y MAE ANGEN Y PWERAU (PENNOD 6 YN Y DDOGFEN HON)	149
12.5	Y CYFIAWNHAD DROS Y PWERAU CAFFAEL GORFODOL (PENNOD 7 YN Y DDOGFEN HON)	149
12.6	Dull y National Grid o Gaffael Y Tir ANGENRHEIDIOL a'R Hawliau ANGENRHEIDIOL dros Dir drwy Gytundeb (PENNOD 8 YN Y DDOGFEN HON)	150
12.7	CEISIADAU, GORCHMYNION A CHydsyniadau CYSYLLTIEDIG (PENNOD 9 YN Y DDOGFEN HON)	150
12.8	TIR CATEGORI ARBENNIG (PENNOD 10 YN Y DDOGFEN HON)	150
12.9	TIR Y GORON (PENNOD 11 YN Y DDOGFEN HON)	150
12.10	Y CYFIAWNHAD DROS YMYRRYD Â HAWLIAU DYNOL (PENNOD 12 YN Y DDOGFEN HON)	150

ATODIAD A – TRAWSTORIAD DANGOSOL O'R TWNNEL

ATODIAD B – Y CYNLLUN LLEOLIAD

1 Cyflwyniad

1.1 NATIONAL GRID A'R DATBLYGIAD ARFAETHEDIG

- 1.1.1 National Grid Electricity Transmission (plc) (Y National Grid) sy'n gweithredu'r system trawsyrru trydan ym Mhrydain Fawr ac mae'n berchen ar y system honno yng Nghymru a Lloegr. Mae'r system yn gweithredu ar 400,000 folt (400 kV) a 275,000 folt (275 kV), gan gysylltu generaduron trydan ag is-orsafoedd. Yn yr is-orsafoedd, caiff y foltiau uwch eu trosglwyddo yn foltiau is, gan alluogi Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu i ddsbarthu'r pŵer i gartrefi a busnesau.
- 1.1.2 Y National Grid yw'r unig gwmni sydd â thrwydded i drawsyrru trydan yng Nghymru a Lloegr. Rhoddwyd Trwydded Trawsyrru i'r National Grid o dan Ddeddf Trydan 1989, Adran 6 (1) (b).
- 1.1.3 Datganiad o Resymau yw hwn sy'n cyd-fynd â chais gan y National Grid i geisio pwerau i adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw cysylltiad newydd 400 kV. Mae'r Datblygiad Arfaethedig hwn gan y National Grid yn ymwneud â datblygu cysylltiad 400 kV newydd rhwng Is-orsaf bresennol Wylfa ar Ynys Môn ac Is-orsaf Pentir yng Ngwynedd. Byddai hyn yn hwyluso'r broses o allforio pŵer o Orsaf Bŵer arfaethedig Wylfa Newydd.
- 1.1.4 Enw'r Datblygiad Arfaethedig yw Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Ceir disgrifiad llawn o'r datblygiad ym Mhennod 3 y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfen 5.3**). Dyma brif elfennau'r Datblygiad Arfaethedig:
- addasiadau i'r is-orsaf bresennol yn Wylfa;
 - adrannau o linell uwchben 400 kV newydd rhwng is-orsaf Wylfa, Prif Dŷ Twannel Afon Braint a'r Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn, gan gynnwys addasu rhannau o'r llinell uwchben 400 kV bresennol rhwng Wylfa a Phentir;
 - Prif Dŷ Twannel Afon Braint/y Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ar Ynys Môn;
 - twannel rhwng Prif Dai Twannel Afon Braint a Thŷ Fodol;
 - Prif Dŷ Twannel Tŷ Fodol/y Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio yng Ngwynedd;

- adran newydd o gysylltiad llinell uwchben rhwng Prif Dŷ Twnnel Tŷ Fodol/y Compownd Lle Caiff Pennau Ceblau eu Selio ac is-orsaf Pentir;
- estyniad i'r is-orsaf bresennol ym Mhentir; a
- compowndiau dros dro ar gyfer gwaith adeiladu, traciau mynediad, gweithfeydd i'r adeiladwyr, lledaenu'r briffordd gyhoeddus mewn mannau lleol, a gwaith trydydd parti sy'n angenrheidiol er mwyn adeiladu'r seilwaith a restrir uchod.

2 Diben y Ddogfen

2.1 PAM MAE ANGEN Y DATGANIAD HWN O RESYMAU

- 2.1.1 Mae'r datganiad hwn wedi cael ei baratoi i gydymffurfio â gofynion y Canllawiau sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau ar gyfer caffael gorfodol. Canllawiau yw'r rhain a gynhyrchwyd gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ac a ddiweddarwyd ym mis Medi 2013 (y "Canllawiau"), o dan Reoliad 5(2)(h) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009 ("Rheoliadau 2009") a Deddf Cynllunio 2008 ("Deddf 2008").
- 2.1.2 Mae angen y Datganiad hwn gan fod y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (y "Gorchymyn drafft") yn cynnwys pwerau i gaffael tir yn orfodol ac/neu i gaffael hawliau dros dir yn orfodol fel y disgrifir ym Mhennod 5 yn y ddogfen hon.
- 2.1.3 Mae Paragraffau 31 a 32 yn y Canllawiau yn cydnabod bod Rheoliadau 2009 yn ei gwneud yn ofynnol cael datganiad o resymau ac mae Paragraff 32 yn nodi:

'Dylai'r datganiad o resymau geisio cyfiawnhau'r prynu gorfodol a geisir ac egluro yn benodol pam ym marn yr ymgeisydd bod achos cryf er budd y cyhoedd drosto. Mae hyn yn cynnwys rhesymau dros greu hawliau newydd'.

- 2.1.4 Mae'r Datganiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros geisio'r pwerau i gaffael tir yn orfodol ac/neu gaffael hawliau dros dir yn orfodol. Mae'n esbonio hefyd y rhesymau dros ddefnyddio tir dros dro ac i ba raddau y gwneir hynny. Mae angen y pwerau hyn i sicrhau bod gan y National Grid y pwerau angenrheidiol i adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig. Mae cyfeiriadau yn y Datganiad hwn at "Gaffael Gorfodol" yn cynnwys caffael tir yn barhaol, a chaffael hawliau dros dir.
- 2.1.5 Bydd y Datganiad yn dangos bod achos cryf, er budd y cyhoedd, dros roi pwerau caffael gorfodol ar gyfer y tir perthnasol.
- 2.1.6 Mae'n esbonio pam fod defnyddio pwerau caffael gorfodol yn yr amgylchiadau hyn yn ddilys ac yn gymesur, a pham fod cyfiawnhad dros

unrhyw ymyrryd â hawliau dynol y rheini sydd â budd yn y tir arfaethedig sydd i'w gaffael.

2.1.7 Mae'r Datganiad hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau sy'n cyd-fynd â'r cais a gyflwynwyd yn unol ag adran 55 o Ddeddf 2008 a Rheoliad 5 o Reoliadau 2009, a dylid ei ddarllen ochr yn ochr â'r dogfennau hynny. Yn benodol, mae'r National Grid wedi cyflwyno'r dogfennau hyn ynghylch y pwerau caffael gorfodol y mae'n eu ceisio fel rhan o'r Datblygiad Arfaethedig:

- Y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft (**Dogfen 2.1**)
- Y Datganiad Amgylcheddol (**Cyfrol 5**)
- y Datganiad o Resymau (sef y ddogfen hon);
- cynlluniau sy'n dangos y tir a fyddai'n berthnasol wrth gaffael amryw o fuddion mewn tir a hawliau dros dir. Y Cynlluniau Tir – (**Dogfen 4.2**);
- y Cynlluniau Gwaith sy'n dangos terfynau arfaethedig Gorchymyn drafft y National Grid, llwybr y datblygiad, a'r pellter ar ddwy ochr y llwybr arfaethedig lle gellid gwneud gwaith (**Dogfen 4.4**);
- Llyfr Cyfeirio sy'n cynnwys manylion buddion mewn tir neu hawliau dros dir y gallai'r broses gaffael arfaethedig effeithio arnynt (ac y gallai pwerau meddiannaeth dros dro effeithio arnynt). Y Llyfr Cyfeirio – (**Dogfen 3.3**);
- Datganiad Cyllido sy'n esbonio sut y bydd y cynigion a geir yn y Gorchymyn drafft yn cael eu cyllido, gan gynnwys sut y caiff y pwerau caffael gorfodol sy'n cael eu ceisio eu cyllido. Y Datganiad Cyllido – (**Dogfen 3.2**);
- Achos Angen y Prosiect, sy'n rhoi esboniad manwl o'r angen am y datblygiad. Yr Achos Angen – (**Dogfen 7.1**); a
- dogfen yn amlinellu'r prif opsiynau eraill a ystyriwyd. Y Datganiad Amgylcheddol – (**Dogfen 5.2**).

2.1.8 Mae gan y Gorchymyn drafft yr hyn a elwir yn derfynau'r Gorchymyn, ac mae'r rheini i'w gweld yn y Cynlluniau o'r Tir yr Effeithir Arno (**Dogfen 4.1**). Dyma'r y tir y bydd y Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno. Nid yw'r National Grid yn ceisio caffael yn orfodol yr holl dir sy'n rhan o derfynau'r Gorchymyn. O ran y rhannau o'r llinell uwchben yn y Datblygiad Arfaethedig, dim ond hawl barhaol i greu mynediad ac i gynnal a chadw'r

datblygiad dros goridor sydd o fewn y cyfyngiadau gwyro y bydd y National Grid ei hangen.

3 Yr Angen am y Datblygiad Arfaethedig

3.1 Y CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A'R DATGANIAD POLISI CENEDLAETHOL

- 3.1.1 Ym mis Gorffennaf 2011, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd (yr "Ysgrifennydd Gwladol") Chwe Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer y seilwaith ynni. Mae'r Datganiad Polisi Cenedlaethol cyffredinol ar gyfer ynni (EN-1) yn dweud ei bod yn hanfodol i'r Deyrnas Unedig barhau i gael cyflenwadau sicr a dibynadwy o drydan wrth bontio i economi carbon isel. Mae EN-1 hefyd yn tynnu sylw at angen brys am ddarparu seilwaith newydd ar gyfer trawsyrru a dosbarthu trydan. Dywed Paragraff 3.7.2 o EN-1:

'Fel y nodwyd yn Rhannau 2 a 3 y Datganiad Polisi Cenedlaethol hwn, mae'n debyg y bydd y galw am drydan yn cynyddu'n sylweddol dros y degawdau nesaf. Mae ffactorau sy'n cyfrannu at dwf o'r fath yn cynnwys datblygu tai ac eiddo busnes newydd ac mae disgwyl i nifer yr aelwydydd yn Lloegr dyfu i 27.8 miliwn erbyn 2031 a'r defnydd uwch o drydan mewn gwres domestig a diwydiannol a thrafnidiaeth. Mae diffyg rhwydweithiau trydan cadarn digonol yn gallu achosi, neu gyfrannu at, ymyriadau ar raddfa fawr. Bydd yn rhaid i rwydweithiau trawsyrru a dosbarthu presennol esblygu ac addasu mewn amrywiol ffyrdd i ddelio â'r cynnydd yn y galw, ond bydd hefyd angen adeiladu llinellau newydd 132kV ac uwch er mwyn diwallu'r angen cenedlaethol sylweddol i ehangu ac atgyfnerthu rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu'r DU.'

- 3.1.2 At hynny, dywed EN-5, sef y Datganiad Polisi Cenedlaethol ar gyfer Rhwydweithiau Trydan:

"bydd yn rhaid adeiladu llinellau newydd, ac mae lleoliad ffynonellau ynni adnewyddu a safleoedd dynodedig ar gyfer gorsafoedd pŵer niwclear newydd yn golygu ei bod hi'n anochel y bydd yn rhaid i gyfran sylweddol o'r llinellau hyn groesi ardaloedd lle nad oes dim llawer neu ddim seilwaith trawsyrru ar hyn o bryd, neu y gellir honni y dylid eu diogelu rhag ymyrraeth o'r fath".

3.2 YR ACHOS ANGEN


- 3.2.1 Ceir esboniad manwl o'r angen am y Datblygiad Arfaethedig yn Achos Angen y Prosiect (**Dogfen 7.1**).
- 3.2.2 Mae'r "National Electricity Transmission Security and Quality of Supply Standards" (NETS SQSS) yn cyflwyno cyfres o feini prawf a methodolegau y mae'r National Grid yn eu defnyddio wrth gynllunio a gweithredu'r system genedlaethol ar gyfer trawsyrru trydan. Ceir meini prawf ychwanegol, er enghraifft ar gyfer elfennau manylach a gwahanol sy'n ymwneud ag ansawdd y cyflenwad, yng Nghod y Grid a Chod Perchnogion Gweithredwyr Systemau Trawsyrru (SO-TO).
- 3.2.3 O dan delerau ei drwydded trawsyrru, mae'n rhaid i'r National Grid wneud cynnig i ddarparu cysylltiad wrth ymateb i bob cais dilys a wneir. Cafodd y National Grid gais gan Pŵer Niwclear Horizon i gysylltu gorsaf bŵer niwclear arfaethedig yn Wylfa ar arfordir gogleddol Môn â'r system trawsyrru trydan foltedd uchel.
- 3.2.4 Mae'r National Grid wedi cytuno drwy gontract i gysylltu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd â'r system trawsyrru yn y gogledd yn 2026-2027. Nid yw'r llinell uwchben bresennol rhwng Wylfa a'r tir mawr yn ddigonol er mwyn cysylltu Wylfa Newydd, felly mae angen i'r National Grid adeiladu ail gysylltiad, a hwnnw'n un newydd.

3.3 DATBLYGU'R PROSIECT

- 3.3.1 Gan fod Prosiect Cysylltiad Gogledd Cymru yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, mae angen i'r National Grid gyflwyno cais am gydsyniad datblygu i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol, a hynny drwy law'r Arolygiaeth Gynllunio. Cais fydd hwn am Orchymyn Cydsyniad Datblygu drafft o dan Ddeddf Cynllunio 2008.
- 3.3.2 Mae'r broses cyn ymgeisio yn rhan sylweddol o broses y Gorchymyn drafft. Mae'n golygu datblygu cynllun sydd wedi'i brofi ac wedi bod yn destun adolygiad, ymgynghoriad ac asesiad amgylcheddol. Gan hynny, pan fydd cais am Orchymyn drafft yn cael ei gyflwyno, dylai'r cynllun roi ystyriaeth i gydbwysedd o ffactorau amgylcheddol, ffactorau economaidd-gymdeithasol, ffactorau cost, a ffactorau technegol, gan ystyried yr adborth a gafwyd ar ôl ymgynghori drwy ddulliau statudol ac anstatudol. Mae hefyd yn cynnwys arolygon, asesiadau amgylcheddol a pharatoi holl ddogfennau cais y Gorchymyn drafft.

3.3.3 Dechreuodd y National Grid y broses cyn ymgeisio ar gyfer y datblygiad arfaethedig yn 2012. Mae'r diagram isod yn rhoi amlinelliad o broses y datblygiad arfaethedig; mae rhagor o fanylion ar gael ym Mhennod 2 y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfen 5.2**).

Trosolwg o Esblygiad y Datblygiad Arfaethedig



Cwmpas y pwerau caffael gorfodol

3.4 DISGRIFIAD O'R TIR A'R HAWLIAU A GEISIR

- 3.4.1 Mae'r National Grid yn awyddus i gael pwerau parhaol a dros dro yn y Gorchymyn drafft er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig. At y dibenion hyn, mae angen i'r National Grid gaffael tir yn orfodol, a chaffael hawliau dros dir yn orfodol, yn ogystal â chael pwerau i ddefnyddio tir dros dro er mwyn gwneud gwaith datgymalu, adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw.
- 3.4.2 O ran Gwaith SP Manweb, mae'r Gorchymyn drafft yn cynnwys darpariaethau i SP Manweb gael hawliau dros dir a meddiannu tir dros dro. Yn ogystal â Gwaith SP Manweb, mae angen gwneud gwaith hefyd fel rhan o'r Datblygiad Awdurdodedig¹ sy'n ymwneud â chyfarpar ymgwymerwyr eraill, fel Openreach. Mae'r darnau hyn o waith yn rhan o'r Datblygiad Awdurdodedig ac mae'r National Grid yn cynnal trafodaethau â'r ymgwymerwyr hynny ynghylch y rhain.
- 3.4.3 Mae natur mwyafrif (mwyafrif o ran hyd) y Datblygiad Arfaethedig (h.y. llinell drydan uwchben) yn golygu mai prin iawn fydd y tir y bydd angen ei gaffael yn orfodol. Mae mwyafrif y pwerau caffael yn ymwneud â chaffael hawliau (ar gyfer tyrau a dargludyddion a fydd yn hofran uwchben).
- 3.4.4 Mae angen caffael tir yn ardal is-orsaf Pentir ac yn lleoliadau'r ddau adeilad pen twnnel (Braint a Thŷ Fodol) ac o'u hamgylch.
- 3.4.5 O ran y twnnel a fydd yn cael ei adeiladu, gan gynnwys y twnnel o dan Afon Menai, ceisir cael stratwm o isbridd ar rydd-ddaliad. Fel yn achos rhannau eraill o'r Datblygiad Arfaethedig, y bwriad yw y bydd y twnnel yn cael ei adeiladu yn unol â'r pŵer yn y Gorchymyn drafft i feddiannu dros dro (Erthygl 26). I'r graddau y byddai hynny'n angenrheidiol, byddai pwerau caffael gorfodol wedyn yn cael eu defnyddio ar ôl cwblhau'r gwaith adeiladu.² Mae'r National Grid yn credu bod ardal amddiffynnol barhaus o

¹ Mae "Datblygiad Awdurdodedig" yn derm sy'n cael ei ddiffinio yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft.

² Gweler hefyd adran 12 o'r ddogfen hon ynghylch Tir y Goron.

gwmpas y twnnel yn angenrheidiol er mwyn darparu ar gyfer bolltau craig a growtio fel nad oes dim o'r gwaith adeiladu yn ymestyn y tu allan i'r terfynau gwyro. Ni fydd y tir y mae ei angen yn fwy na 25 m wrth 25 m o ran ei drawstoriad. Credir bod hyn yn gymesur i natur a graddfa'r prif dwannel ar ôl iddo gael ei adeiladu. Ceir trawstoriad dangosol o'r twnnel yn **Atodiad A** i'r ddogfen hon.

3.4.6 O ran y siafftau cysylltiedig, bydd y rhain o fewn y Compowndiau Pennau Selio, a byddant yn rhan o'r tir ar rydd-ddaliad sydd i'w gaffael yn y naill achos a'r llall.

3.4.7 Mae'r tir y ceisir pwerau caffael gorfodol a phwerau caffael hawliau gorfodol ar ei gyfer wedi'i ddisgrifio yn y Llyfr Cyfeirio (**Dogfen 3.3**) ac fe'i dangosir hefyd ar y Cynlluniau Tir (**Dogfen 4.2**). Er mwyn bod yn gyflawn, mae'r Llyfr Cyfeirio a'r Cynlluniau Tir hefyd yn dangos y plotiau y ceisir pwerau defnydd dros dro ar eu cyfer. Mae'r Gorchymyn drafft yn darparu mai dim ond dros dro y gellir defnyddio rhai plotiau penodol ar y rhestr (sef y plotiau hynny yn Atodlen 11 yn y Gorchymyn drafft). Mae'n darparu y gellir defnyddio'r holl ddarnau eraill o dir y Gorchymyn ar sail dros dro, cyn y bydd pwerau caffael gorfodol yn berthnasol iddynt hefyd. Dyma'r dull sydd wedi'i ddefnyddio mewn nifer o gynlluniau llinol eraill fel rhan o Brosiectau Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol, ac yn wir, mewn cynlluniau llinol o dan Orchmynion y Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith. Yn yr achosion hyn, mae'r tir sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith adeiladu wedi cael ei feddiannu a'i ddefnyddio dros dro, a dim ond ar ôl i'r Datblygiad Arfaethedig gael ei gwblhau y bwrir ati i ddefnyddio'r pwerau caffael gorfodol. Mae hyn yn golygu bod modd defnyddio dull sy'n gymesur ar gyfer y tir angenrheidiol, gan roi'r hyblygrwydd angenrheidiol hefyd, fel y nodir yn y Gorchymyn drafft ac yn y Cynlluniau Gwaith (er enghraifft, y Cyfyngiadau Gwyro).

3.4.8 Mae natur y Datblygiad Arfaethedig yn golygu bod angen caffael buddion mewn tir a hawliau dros dir a chael pwerau i ddefnyddio tir dros dro. Mae'r ddogfen hon yn ceisio cyfiawnhau cynnwys hawliau a phwerau o'r fath yn y Gorchymyn drafft.

3.5 CAFFAEL GORFODOL

3.5.1 Mae'r Gorchymyn drafft yn cynnwys y pwerau canlynol sy'n ymwneud â chaffael gorfodol:

Erthygl 22 – Caffael tir yn orfodol

Mae'r Erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid (ond nid SP Manweb) gaffael tir yn orfodol yn ôl yr angen er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal a

chadw'r Datblygiad Awdurdodedig, neu unrhyw beth sy'n gysylltiedig â hynny neu'n angenrheidiol i hwyluso hynny.

Erthygl 23 – Caffael hawliau yn orfodol

Mae'r Erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid, neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb, gaffael hawliau'n orfodol neu osod cyfyngiadau dros y tir, cyn belled ag y mae hyn yn angenrheidiol i adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Awdurdodedig.

Erthygl 24 – Caffael isbridd neu awyrofod

Mae'r Erthygl hon yn rhoi i'r National Grid, neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb, y pŵer i gaffael isbridd o dan y tir sy'n is na dyfnder penodol, neu awyrofod uwch y tir sy'n uwch nag uchder penodol, yn hytrach na gorfod caffael yr holl dir.

Erthygl 25 – Caffael tir sy'n gyfyngedig i isbridd sy'n gorwedd dros 9 metr o dan wyneb y tir

Mae'r erthygl hon yn cyfyngu'r pŵer yn Erthygl 22 i gaffael tir yn orfodol mewn perthynas â'r plotiau y gall fod eu hangen ar gyfer y twnnel, fel mai dim ond isbridd dwfn y gellir ei gaffael. Mae'r plotiau hyn wedi'u rhestru yn Atodlen 10 i'r Gorchymyn drafft. At hynny, o ran rhai o'r plotiau lle gellid adeiladu'r twnnel, mae'r Datblygiad Arfaethedig yn cynnwys gwaith ar wyneb y tir, sy'n golygu bod angen caffael hawliau (dosbarth 3 neu ddosbarth 4). Mae'r rhain wedi'u dangos yn y Cynlluniau Tir, drwy gysgodi'r hawliau dosbarth 3 neu ddosbarth 4, a thrwy groeslinellu'r isbridd dwfn dosbarth 2 sydd i'w gaffael.

- 3.5.2 Mae'r Gorchymyn drafft yn cynnwys y pwerau atodol / canlyniadol canlynol sy'n ymwneud â chaffael gorfodol:

Erthygl 33 – Cyfyngiad amser ar gyfer defnyddio awdurdod i gaffael tir yn orfodol

Mae hyn yn cyfyngu'r gallu i roi hysbysiad trafod ynghylch datganiad breinio cyffredinol i gyfnod o fewn 8 mlynedd o ddyddiad rhoi'r Gorchymyn.

Erthygl 32 – Caffael tir yn orfodol – ymgorffori'r cod mwynau

Mae hyn i bob diben yn golygu nad yw hawliau ar fwynhau wedi'u cynnwys yng nghwmpas y pwerau caffael gorfodol ac mae'n darparu gweithdrefn ar gyfer perchnogion sy'n dymuno mwyngloddio neu greu gweithiau mwynau.

Erthygl 34 – Caffael rhan o eiddo penodol

Mae'r Erthygl hon yn galluogi'r National Grid, neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb, i gaffael rhan yn unig o rai eiddo.

Erthygl 35 – defnyddio Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981

Mae'r Erthygl hon yn darparu ar gyfer defnyddio Deddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981, gydag addasiadau (er enghraifft yn sgil Deddf Tai a Chynllunio 2016). Mae Deddf 1981 yn cynnwys gweithdrefnau breinio ar gyfer tir a gaiff ei gaffael yn orfodol.

Erthygl 36 – defnyddio Rhan 1 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965

Mae'r Erthygl hon yn sicrhau bod y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer caffael gorfodol a'r Gorchymyn drafft yn cyd-fynd â'i gilydd yn iawn.

Erthygl 37 – diddymu a gohirio hawliau preifat

Mae'r Erthygl hon yn caniatáu diddymu a gwahardd hawliau preifat dros dir.

Erthygl 38 – pŵer i ddiystyru hawddfrentiau a hawliau eraill

Mae'r Erthygl hon yn caniatáu diystyru buddion a hawliau, gan gynnwys cyfyngiadau ar y defnydd o dir. Mae'n rhoi sylw i'r defnydd o dir a gweithgareddau eraill yn unol â'r Gorchymyn drafft, ac yn dilyn darpariaethau Adran 203 o Ddeddf 2016.

Erthygl 39 – Awdurdod statudol i ddiystyru hawddfrentiau a hawliau eraill

Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'r Erthygl hon yn darparu, yn rhinwedd Adran 158 o Ddeddf Cynllunio 2008, bod gan yr ymgymwr awdurdod statudol i ymyrryd â buddion a hawliau penodol.

Erthygl 40 – Diddymu hawliau preifat a chyfamodau cyfyngiadol sy'n ymwneud â chyfarpar sy'n berchen i'r National Grid neu SP Manweb a gaiff ei symud oddi ar y tir yn ystod meddiannaeth dros dro

Mae modd gohirio'r holl hawliau preifat dros dir sydd wedi'i feddiannu dros dro gan yr ymgymwr, ac nid oes modd gorfodi'r hawliau hyn os yw'r hawliau hynny'n anghyson â'r pŵer yn y Gorchymyn drafft, a bydd hyn yn para drwy gyfnod y feddiannaeth. Pan gaiff cyfarpar y National Grid neu SP Manweb ei symud oddi ar y tir, mae'r erthygl hon yn darparu y bydd yr hawliau mewn perthynas â'r cyfarpar hwnnw wedyn wedi'u diddymu pan nad y National Grid neu SP Manweb bellach fydd perchnogion cyfreithiol y tir. Pan gaiff sylfeini o dan 1.5m eu gadael yn eu lle, mae'r Erthygl yn darparu nad oes unrhyw gamau y mae'n rhaid eu cymryd er gwaethaf diddymu'r hawliau tir.

- 3.5.3 O dan Reol 5(2)(h) o Reoliadau 2009, rhaid rhoi datganiad o resymau dros geisio Gorchymyn Cydsyniad Datblygu er mwyn awdurdodi caffael tir neu fudd mewn tir neu hawl dros dir yn orfodol. Nid yw Rheoliad 5(2)(h) felly yn ei gwneud yn ofynnol i'r datganiad o resymau fynd y tu hwnt i faterion sy'n ymwneud â chaffael tir neu fudd mewn tir neu hawliau dros dir. Nid yw hyn,

fodd bynnag, yn cyfeirio at bwerau gorfodol eraill a geisir yn y Gorchymyn drafft, a'r rheini hefyd yn ymwneud mewn ffordd debyg â thir ac a fydd yn ymyrryd neu a allai ymyrryd â hawliau dros dir a buddion mewn tir. Rhoddir sylw i'r rhain isod.

3.6 PWERAU DEFNYDDIO DROS DRO

- 3.6.1 Byddai Erthygl 26 yn galluogi'r National Grid at ddibenion adeiladu'r Datblygiad Awdurdodedig i feddiannu tir penodol dros dro. Mae 'meddiannu' yn golygu y gallai'r National Grid feddiannu a rheoli'r tir gan gadw eraill allan, gan gynnwys ei berchennog; serch hynny, nid yw hyn yn golygu caffael y tir yn orfodol na chaffael hawliau dros y tir yn orfodol, yn barhaol neu dros dro. Mae pwerau defnyddio dros dro o'r fath wedi'u diffinio'n wahanol i gaffael gorfodol, gan gynnwys drwy'r is-ddeddfwriaeth berthnasol, yn sgil y ffaith mai 'pwerau' statudol ydynt, yn hytrach na'r gallu i gaffael hawl sy'n gysylltiedig â thir yn orfodol. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu i raddau helaeth iawn yr hyn a geir mewn nifer o Orchymyon Cydsyniad Datblygu sydd wedi'u gwneud yn y gorffennol, a dyma'n wir a ddigwyddai fel rhan o'r gyfundrefn flaenorol o dan Ddeddf Trafnidiaeth a Gwaith 1992.
- 3.6.2 Y tir y mae Erthygl 26 yn berthnasol iddo yw'r tir a nodir yng ngholofn 1 o Atodlen 11 i'r Gorchymyn drafft (sef tir y mae pwerau defnyddio dros dro yn unig yn berthnasol iddo, heb unrhyw allu i gaffael tir na hawliau'n barhaol ac yn orfodol) ac unrhyw dir arall o fewn terfynau'r Gorchymyn, cyn belled nad yw'r National Grid wedi gwneud datganiad breinio mewn perthynas â'r tir ei hun nac i fynd i mewn i'r tir ar ôl rhoi hysbysiad mynediad cyn ei gaffael.
- 3.6.3 Gall y National Grid gyflawni'r gweithgareddau a ddynodir yn Erthygl 26. Mae'r rhain yn cynnwys cael gwared ar linell drydanol, gweithfa, adeilad, strwythur, peilonau, cyfarpar a llystyfiant; codi gweithfeydd ac adeiladau ac adeiladu unrhyw waith a nodir mewn perthynas â'r tir hwnnw yn Atodlen 11.
- 3.6.4 Byddai cyfnod y feddiannaeth dros dro yn amodol ar y cyfyngiadau amser a nodir yn Erthygl 33(2) ac Erthygl 26. Cyn ildio meddiannaeth dros dro o'r tir, byddai'n rhaid i'r National Grid gael gwared ar unrhyw weithfeydd dros dro ac adfer y tir, yn unol â'r eithriadau a nodwyd.

3.7 DEFNYDD O DIR DROS DRO GAN SP MANWEB ER MWYN DARPARU GWAITH SP MANWEB

- 3.7.1 Byddai Erthygl 27 yn galluogi SP Manweb i feddiannu Tir y Gorchymyn dros dro, gan gynnwys fel y nodir yng ngholofn (1) o Atodlen 11 o'r Gorchymyn Drafft mewn perthynas â Gwaith SP Manweb.

- 3.7.2 Mae Erthygl 27 yn cynnwys darpariaethau sy'n berthnasol i SP Manweb mewn perthynas â'r tir hwnnw yn yr un modd â'r rheini sy'n berthnasol i'r National Grid o dan Erthygl 26.

3.8 DEFNYDDIO TIR DROS DRO ER MWYN CYNNAL A CHADW'R DATBLYGIAD AWDURDODEDIG

- 3.8.1 Byddai Erthygl 28 yn galluogi'r National Grid ac SP Manweb (mewn perthynas â Gwaith SP Manweb) i feddiannu tir penodol dros dro ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod cynnal a chadw (h.y. mewn perthynas ag unrhyw ran o'r Datblygiad Arfaethedig, 5 mlynedd o'r dyddiad pan gaiff y rhan honno ei hagor am y tro cyntaf ar gyfer defnydd gweithredol gan y cyhoedd (ac eithrio ar gyfer ailblannu neu blannu tirlun, sy'n eithriadau)).
- 3.8.2 Y tir y mae Erthygl 28 yn berthnasol iddo yw unrhyw dir o fewn terfynau'r Gorchymyn yn y Gorchymyn drafft.
- 3.8.3 Byddai Erthygl 28(1)(b) yn golygu bod modd codi gweithfeydd ac adeiladau ar y tir, cyn belled ag y mae hynny'n rhesymol angenrheidiol at ddibenion cynnal a chadw.
- 3.8.4 Mae'r pwerau'n amodol ar gyfyngiad amser, a dim ond am gyfnod mor hir ag sy'n rhesymol angenrheidiol i gyflawni'r gwaith cynnal a chadw y caiff y National Grid ac SP Manweb aros ar y tir. Cyn ildio meddiannaeth, rhaid cael gwared ar yr holl weithfeydd dros dro ac adfer y tir i foddhad rhesymol y perchennog.
- 3.8.5 Byddai defnyddio'r pwerau hyn yn ymyrryd â hawliau eiddo perchnogion a meddianwyr. Byddai gan berchennog neu feddiannwr sy'n dioddef colled neu ddifrod hawl i wneud cais am iawndal.

3.9 DEFNYDD DROS DRO O ISBRIDD O DAN STRYDOEDD AC AWYROFOD UWCHBEN STRYDOEDD

- 3.9.1 Mae Erthygl 29 yn caniatáu i'r National Grid neu SP Manweb ddefnyddio isbridd o dan strydoedd neu awyrofod uwchben strydoedd, er enghraifft pan fydd y Datblygiad Arfaethedig yn mynd o dan stryd neu drosti, a gellir meddiannu'r tir perthnasol er mwyn adeiladu'r gwaith.
- 3.9.2 Mae gan unrhyw berchennog neu feddiannwr hawl i iawndal fel y nodir yn Erthygl 29.

3.10 PWERAU ERAILL O BWYS

Dyma'r pwerau ychwanegol eraill y byddai'r Gorchymyn drafft yn eu rhoi i'r National Grid (neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb):

Erthygl 11 – gwaith stryd

Byddai'r Erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid (ac SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb) gyflawni mathau penodol o waith ar strydoedd penodol. Gallai defnyddio'r pwerau hyn o bosibl ymyrryd â hawliau preifat.

Erthygl 13 – Pŵer i addasu cynllun etc, strydoedd

Byddai'r Erthygl hon yn caniatáu i'r National Grid (ac SP Manweb) addasu cynllun strydoedd neu wneud gwaith penodol ar y strydoedd, yn barhaol neu dros dro. Os oes unrhyw hawliau preifat dros y strydoedd, gallai defnyddio'r pwerau yn Erthygl 13 o bosibl ymyrryd â'r rhain. Yn yr achos hwnnw, byddai'r hawliau hynny'n cael eu gohirio neu eu diddymu, neu fel arall yn achos o ymyrraeth.

Erthygl 14 - Cau ffyrdd a hawliau tramwy cyhoeddus dros dro

Byddai'r Erthygl hon yn galluogi'r National Grid (ac SP Manweb) i gau, addasu neu osod gwyradau ar strydoedd a hawliau tramwy cyhoeddus gan ddefnyddio unrhyw stryd fel safle gweithio dros dro. Dim ond at ddibenion adeiladu'r datblygiad arfaethedig y byddai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio. Byddai unrhyw gau strydoedd yn digwydd am gyfnod rhesymol yn unig.

Byddai'r pŵer i rwystro mynediad i gerddwyr yn amodol ar y gofyniad i ddarparu mynediad rhesymol i gerddwyr a fyddai'n mynd i eiddo neu dod o eiddo sy'n ffinio â stryd sy'n cael ei chau dros dro, gan roi llwybr arall neu wyriad os na fyddai mynediad fel arall.

Gallai defnyddio Erthygl 14 o bosibl ymyrryd â hawliau preifat (h.y. hawliau sydd gan berson yn hytrach na'r cyhoedd yn gyffredinol), fel yr hawl i yrru cerbydau ar hyd stryd sydd wedi'i chau dros dro. Yn yr achos hwnnw, byddai'r hawl dan sylw yn cael ei gohirio. Os bydd rhywun yn dioddef colled yn sgil gohirio hawl o'r fath, bydd modd gwneud cais am iawndal.

Erthygl 18 – Arllwys Dŵr

O dan Erthygl 18, gall y National Grid, (neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb), ddefnyddio unrhyw gwrs dŵr neu unrhyw garthffos gyhoeddus er mwyn draenio dŵr wrth ddarparu neu gynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig. Gallai hyn gynnwys gosod, codi neu addasu

pibellau a chreu agoriadau i'r cwrs dŵr, y garthffos gyhoeddus neu ddraen, neu greu cysylltiadau â'r rheini.

Rhaid cael caniatâd gan berchennog y cwrs dŵr, y garthffos gyhoeddus neu'r draen perthnasol cyn arllwys unrhyw ddŵr iddo.

Rhaid i'r National Grid (neu SP Manweb) sicrhau, cyn belled ag y mae hynny'n ymarferol resymol, bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod cyn lleied â phosibl o raeon, pridd, deunydd solid arall, olew neu fater mewn daliant yn y dŵr sydd i'w arllwys i'r cwrs dŵr, y garthffos gyhoeddus neu'r draen.

Erthygl 19 – Gwaith gwarchodol

Mae Erthygl 19 yn galluogi'r National Grid (neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb) i gyflawni unrhyw waith gwarchodol neu adferol i dir, adeiladau, strwythurau, cyfarpar neu offer, a'r rheini'n gorwedd o fewn terfynau'r Gorchymyn neu y gallai'r Datblygiad Arfaethedig effeithio arnynt, yn unol â'r hyn sy'n angenrheidiol neu'n fuddiol ym marn y National Grid (neu SP Manweb). Gellir cyflawni gwaith gwarchodol cyn dechrau adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig, wrth adeiladu'r datblygiad, neu hyd at bum mlynedd ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau.

Gall y National Grid (neu SP Manweb) fynd i mewn i unrhyw adeilad a'i archwilio at ddibenion penderfynu sut y mae cyflawni unrhyw gamau o dan yr Erthygl hon.

Rhaid rhoi hysbysiadau perthnasol i berchnogion a meddianwyr yr adeilad neu'r tir fel y nodir yn Erthygl 19. Byddai gan berchennog neu feddiannwr sy'n dioddef colled yr hawl i wneud cais am iawndal.

Erthygl 20 – Awdurdod i arolygu ac archwilio'r tir

Byddai'r Erthygl hon yn galluogi'r National Grid, neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb, at ddibenion y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, i fynd ar unrhyw dir a ddangosir o fewn terfynau'r Gorchymyn, neu y gallai'r Datblygiad Awdurdodedig effeithio arno, er mwyn arolygu ac archwilio'r tir. Os bydd rhywun yn dioddef colled yn sgil ymyrryd yn y fath fodd, bydd modd gwneud cais am iawndal.

Erthygl 41 – Ymgymrwyr statudol

Mae Erthygl 41 yn caniatáu i'r National Grid (neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb) gaffael tir, neu hawliau dros dir, sy'n eiddo i ymgymrwyr statudol cyn belled ag y bo'r tir hwnnw o fewn terfynau'r

Gorchymyn. Gall y National Grid ddiddymu hawliau'r ymgwymerwyr statudol neu symud cyfarpar sy'n eiddo iddynt.

Erthygl 42 – Tir categori arbennig

O ran tir categori arbennig, gweler Pennod 10 yn y Datganiad hwn.

Mae Erthygl 42 yn caniatáu i'r National Grid ddarparu'r Datblygiad Arfaethedig ar dir sydd mewn categori arbennig er gwaethaf ei statws fel tir o'r fath.

Erthygl 47 – Rheoleiddio Traffig

Mae Erthygl 47 yn caniatáu i'r National Grid (neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb) wahardd mynediad i gerbydau, gwahardd cerbydau rhag aros, a rheoleiddio cyflymder cerbydau, a gwahardd y defnydd o ffyrdd gan draffig trwodd, rheoleiddio cyfeiriad teithio cerbydau, a chreu clirffordd, at ddibenion creu'r Datblygiad Arfaethedig. Mae Atodlen 13 yn amlinellu i ba raddau y gellir ymyrryd â'r ffyrdd.

Dim ond gyda chydsyniad yr awdurdod traffig yn yr ardal lle mae'r ffordd wedi'i lleoli y gellir defnyddio'r pwerau sydd yn yr Erthygl hon. Rhaid i'r National Grid (neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb) gydymffurfio â'r hysbysiad perthnasol a'r cyfnodau hysbysebu fel yr amlinellir hynny yn yr Erthygl hon.

Erthygl 48 – Cwmpo neu docio coed

Byddai'r Erthygl hon yn galluogi'r National Grid (neu SP Manweb mewn perthynas â Gwaith SP Manweb) i gwmpo, tocio, brigdorri, coedlannu neu leihau uchder neu led unrhyw goeden, llwyn, perth neu berth bwysig, sydd o fewn neu'n crogi uwchben terfynau'r Gorchymyn, er mwyn rhwystro'r coed neu'r llwyni hynny rhag atal neu ymyrryd â'r gwaith o adeiladu, cynnal a chadw neu weithredu'r Datblygiad Arfaethedig, a gall wneud hyn hefyd i unrhyw goed neu lwyni a allai achosi perygl. Os bydd rhywun yn dioddef colled yn sgil ymyrryd yn y fath fodd, bydd modd gwneud cais am iawndal.

Erthygl 49 – Coed sy'n destun Gorchymynion Diogelu Coed

Mae'r Erthygl hon yn rhoi pwerau i'r National Grid (neu SP Manweb yn achos Gwaith SP Manweb) sy'n debyg i'r rheini a geir yn Erthygl 47 ond eu bod ynghylch coed sy'n destun Gorchymynion Diogelu Coed. Os bydd rhywun yn dioddef colled yn sgil ymyrryd yn y fath fodd, bydd modd gwneud cais am iawndal.

4 Disgrifiad o'r Tir y mae'r Pwerau Caffael Gorfodol a'r Pwerau Eraill yn berthnasol iddo

4.1 CYFLWYNIAD

- 4.1.1 Mae'r bennod hon yn disgrifio Tir y Gorchymyn, gan gynnwys ei leoliad, ei ddefnydd a'i dopograffi. Mae'r tir y bydd pwerau caffael gorfodol yn berthnasol iddo wedi'i ddangos yn y Cynlluniau Tir (**Dogfen 4.2**) ac wedi'i nodi yn y Llyfr Cyfeirio (**Dogfen 3.3**) ac mae'r gwaith sydd i'w wneud gan gynnwys y Cyfyngiadau Gwro wedi'i ddangos ar y Cynlluniau Gwaith (**Dogfen 4.4**).
- 4.1.2 Mae'r National Grid am gael pwerau dros dro ar gyfer ardal ehangach o fewn terfynau'r Gorchymyn er mwyn rhoi lefel angenrheidiol a chymesur o hyblygrwydd ynghylch aliniad terfynol y gwaith. Mae'r National Grid wedi lleihau paramedrau'r Cyfyngiadau Gwro cymaint ag y bo'n rhesymol bosibl ond mae angen sicrhau bod rhywfaint o hyblygrwydd os bydd hynny'n angenrheidiol (esbonnir hyn yn fanylach yn y Datganiad Amgylcheddol ym Mhennod 6 (**Dogfen 5.6**)). Fel y disgrifir uchod, drwy ddefnyddio pwerau meddiannu dros dro yn gyntaf i adeiladu'r Datblygiad Arfaethedig a defnyddio'r pwerau caffael gorfodol ar ôl i'r rhan honno o'r Datblygiad Arfaethedig gael ei adeiladu, mae modd cadw hyblygrwydd yn y Gorchymyn drafft, fel y dangosir yn y Cynlluniau Gwaith, ac mae hwn yn ddull cymesur o geisio'r pwerau tir hyn.
- 4.1.3 Er enghraifft, yn gyffredinol mae'r Cyfyngiadau Gwro ochrol 50 metr o'r llinell ganol sy'n golygu bod y gallu i symud peilonau i'r ochr wedi'i gyfyngu i tua 20 metr, yn dibynnu ar geometreg leol y llinell uwchben. Mewn rhai ardaloedd, mae'r cyfyngiadau gwro wedi'u lleihau'n sylweddol, er mwyn cyfyngu ymhellach ar yr holl dir y gallai'r gwaith effeithio arno, os ystyrir bod y tir hwnnw'n arbennig o sensitif e.e. libartiau preswyl. Mae'r Cyfyngiadau Gwro hyn, ynghyd â'r Cyfyngiadau Gwro fertigol, yn rhoi elfen o hyblygrwydd i'r peirianwyr allu adeiladu asedau mewn lleoliadau fymryn yn wahanol i'r dyluniad manwl gwreiddiol. Ceir wastad risg yn ystod cam adeiladu prosiect o ddod o hyd i nodweddion newydd neu nodweddion sydd heb eu cofnodi, fel olion archeolegol neu boblogaethau o rywogaethau sydd wedi'u gwarchod (e.e. madfallod dŵr cribog neu foch daear). Yn yr achosion hyn, mae'r Cyfyngiadau Gwro yn golygu bod modd gwneud mân

newidiadau i'r dyluniad heb fod angen i'r ymgwymerwr wneud cais newydd am gydsyniad. Mae Pennod 4 y Datganiad Amgylcheddol (**Dogfen 5.4**) yn rhoi disgrifiad llawn o'r holl dir y mae ei angen ar y National Grid er mwyn cyflawni'r gwaith adeiladu ar y Datblygiad Arfaethedig, ac yn ddiweddarach y tir y bydd angen mynediad iddo a gwneud gwaith cynnal a chadw arno.

4.1.4 Byddai gofynion penodol yn berthnasol i'r Datblygiad Arfaethedig, o ran y cynlluniau sydd wedi'u cymeradwyo a'r gwaith adeiladu a'r fethodoleg sydd wedi'u hamlinellu yn y Gorchymyn drafft.

4.1.5 Mae'r tir y ceisir pwerau ar ei gyfer yng Ngogledd Cymru ac mae'n croesi ffiniau gweinyddol yr awdurdodau sirol hyn:

- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Sir Gwynedd

At hynny, mae rhan fechan o'r llwybr yn mynd o dan ddyfroedd arfordirol o dan gymedr y distyll, sydd y tu hwnt i awdurdodaeth y naill Gyngor a'r llall fel awdurdodau cynllunio.

4.1.6 Mae holl Dir y Gorchymyn yn ddaearyddol wedi'i ddangos isod yn y Cynllun Lleoliad yn **Atodiad B**; gweler hefyd y Cynllun Lleoliad Cyffredinol (**Dogfen 4.0.1**).

4.2 TIR Y GORCHYMYN

4.2.1 Mae ardal y Datblygiad Awdurdodedig sy'n rhan o derfynau'r Gorchymyn tua 744 hectar o faint, yn ymestyn yn bennaf i'r de-ddwyrain o Is-orsaf Wylfa ar Ynys Môn, gan basio o dan Afon Menai, hyd at Is-orsaf bresennol Pentir yng Ngwynedd. Ar gyfer pob adran, ceir disgrifiad manylach isod o'r gwahanol ddarnau o dir a'r defnydd presennol o'r tir hwnnw, a chyfeirir at y penodau perthnasol yn y Datganiad Amgylcheddol (**cyfrol 5**).

4.2.2 Er mwyn hwylustod, mae Tir y Gorchymyn wedi'i rannu'n chwech adran, a'u henwi'n A-F, o Wylfa i Bentir. Dyma nhw:

Adran A – O Wylfa i Ros-goch

Adran B – O Ros-goch i Landyfrydog

Adran C – O Landyfrydog i'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn

Adran D – O'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn i Geint

Adran E – O Geint i Afon Braint

Adran F – O Afon Braint i Bentir

Adran A – O Wylfa i Ros-goch

Mae'r tir yn Adran A o'r Datblygiad Arfaethedig yn dechrau yn Is-orsaf Wylfa ac yn ymestyn i'r dwyrain tua Rhos-goch, gan basio i'r gogledd a'r dwyrain o bentrefi Tregele a Llanfechell. Yn y darn hwn o Dir y Gorchymyn, byddai'r llinell newydd i'r dwyrain o'r llinell bresennol ac yn sefyll ar yr hyn a gaiff ei alw'n aliniad 4ZA. Mae Tir y Gorchymyn yn ymestyn ar draws yr A5025 tua'r de-ddwyrain hyd at ddiwedd yr adran sydd i'r gogledd o bentref Rhos-goch.

Adran B – O Ros-goch i Landyfrydog

Mae'r tir yn Adran B o'r Datblygiad Arfaethedig yn rhedeg o'r gogledd-orllewin i'r de-ddwyrain ar hyd llwybr y llinell uwchben bresennol, a hynny o leoliad i'r de o Fodewryd, lle mae Adran A yn troi'n Adran B. Mae wedyn yn mynd tua'r de-ddwyrain gan basio'n union i'r de o Ros-goch a Rhos-y-bol ac yn croesi'r B5111 cyn cyrraedd Llandyfrydog lle mae Adran B yn gorffen ac Adran C yn dechrau..

Adran C – O Landyfrydog i'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn

Mae'r tir yn Adran C yn dechrau i'r dwyrain o bentref Llandyfrydog ac yn ymestyn i gyfeiriad de-ddwyreiniol tuag at bentref bach Maenaddwyn, gan basio i'r gorllewin o Hebron ac yna i'r gogledd o bentref Capel Coch. I'r gogledd-ddwyrain o Gapel Coch, mae Tir y Gorchymyn yn ymestyn i'r de, i'r dwyrain o Gapel Coch gerllaw Ardal Gadwraeth Arbennig Corsydd Môn. Ar ôl croesi Afon Erddreiniog mae Tir y Gorchymyn yn troi tua'r de-ddwyrain lle bydd yn dod yn ôl yn gyfochrog agos at y llinell uwchben bresennol ym Maen Eryr. Mae'r ddwy linell wedyn yn rhedeg yn gyfochrog agos am weddill yr adran hon at bwynt i'r de o'r B5110. Nid yw'r ddwy linell yn gyfochrog agos am tua 2.6 km o'r adran hon, rhag i'r llinell uwchben newydd effeithio'n uniongyrchol ar Ardal Gadwraeth Arbennig Corsydd Môn.

Adran D – O'r B5110 i'r gogledd o Dalwrn i Geint

Mae'r tir o fewn Adran D yn dechrau i'r de o'r B5110. Mae'r ddwy linell yn mynd i gyfeiriad de-ddwyreiniol gan groesi'r B5109 i'r gorllewin o Dalwrn a'r B5420 i'r dwyrain o Langefni, lle bydd yr adran yn gorffen. Mae'r ddwy linell yn gyfochrog agos drwy'r holl adran.

Adran E – O Geint i Afon Braint

Mae'r tir yn Adran E yn dechrau i'r de o'r B5420, i'r dwyrain o Langefni. Mae'r ddwy linell yn dal i redeg i'r de tua'r de-ddwyrain yn gyfochrog agos hyd at beilon 4ZA078, a bryd hynny bydd cwrs llinell uwchben newydd 4AP

yn troi i ffwrdd o linell uwchben bresennol 4ZA. Bydd llinell uwchben newydd 4AP yn parhau i'r de-ddwyrain gan groesi'r A55, yr A5 a'r rheilffordd rhwng Garnedd Fawr a Thyddyn-isaf, gan barhau at ddiwedd yr adran hon lle bydd y llinell uwchben yn croesi Afon Braint.

Adran F – O Afon Braint i Bentir

Mae'r llinell uwchben yn Adran F wedi'i rhannu'n ddarn byr o linell uwchben, gydag un peilon ar Ynys Môn i'r nembontydd 400 kV arfaethedig yng Nghompownd Pennau Selio Braint. Ceir darn o linell uwchben, gyda phedwar peilon yng Ngwynedd, yn rhedeg o'r nembontydd 400 kV arfaethedig yng Nghompownd Pennau Selio Tŷ Fodol i'r de ar draws Goed Nant y Garth i Is-orsaf Pentir.

4.3 DYLUNIAD AC YMGYNGHORI

- 4.3.1 Mae'r dyluniad ar gyfer y llinell 400 kV uwchben a'r gwyradau foltedd is wedi'i seilio ar astudiaethau amgylcheddol, technegol ac economaidd, yn ogystal ag ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Datblygiad Arfaethedig. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn rhoi manylion llawn am yr amgylchedd sylfaenol, yn achos y pwnc technegol perthnasol, lle byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu.
- 4.3.2 Mae Adroddiad yr Ymgynghoriad (**Dogfen 6.1**) yn cynnwys manylion llawn am y broses ymgynghori.
- 4.3.3 Rhoddwyd proses ar waith i ystyried yr holl adborth a ddaeth i law o'r ymgynghoriad ac i benderfynu a fyddai'n briodol gwneud unrhyw rai o'r newidiadau y gofynnwyd amdanynt i'r dyluniad arfaethedig. Canfuwyd y newidiadau hyn drwy gasglu adborth o ddigwyddiadau gwybodaeth i'r cyhoedd, drwy gynnal trafodaethau parhaus â chyrrff dynodedig a chyrrff nad oeddent yn ddynodedig, a thrwy gael trafodaethau â thirfeddianwyr a phobl sydd â buddion yn y tir y gallai'r datblygiad effeithio arno. Cafodd y broses ei chreu er mwyn sicrhau bod timau arbenigol y National Grid ym meysydd yr amgylchedd, dylunio, adeiladu a hawliau tir yn asesu pob newid posibl i'r dyluniad yn effeithiol.
- 4.3.4 Defnyddiwyd y broses i edrych ar yr holl newidiadau i'r dyluniad, boed i'r lleoliad ac/neu i ddyluniad y seilwaith arfaethedig, neu i'r gwaith rhoi mynediad sy'n gysylltiedig â'r Datblygiad Arfaethedig. Cafwyd sylwadau am newidiadau i'r dyluniad o ran pethau fel llwybr y llinell uwchben, lleoliadau peilonau unigol, lleoliadau adeiladau pen twnnel, a llwybrau mynediad. Mae'r Datganiad Amgylcheddol yn rhoi manylion llawn am yr amgylchedd sylfaenol, yn achos y pwnc technegol perthnasol, lle byddai'r Datblygiad Arfaethedig yn cael ei adeiladu.

4.3.5 Yn fras ac yn gryno, roedd y prosesau yn golygu dilyn y camau hyn:-

- **Asesiad rhagarweiniol** : Cafodd pob newid i'r dyluniad ei adolygu'n wreiddiol gan yr arweinwyr technegol (peirianeg, hawliau tir, yr amgylchedd ac economeg-gymdeithasol) er mwyn ystyried y newid arfaethedig, gan gynnwys a oedd hwnnw'n ddichonadwy, ac a ddylid cynnal gwerthusiad manylach os hynny.
- **Astudiaeth peirianeg** : Datblygwyd dyluniad peirianeg diwygiedig, a hwnnw'n rhoi ystyriaeth i wybodaeth amgylcheddol ac economaidd-gymdeithasol hysbys, ar gyfer cam nesaf y broses.
- **Asesiad llawn** : Adolygodd yr arbenigwyr technegol yr holl wybodaeth berthnasol, gan ystyried a allai'r newid y gofynnwyd amdano fod yn well na'r dyluniad drafft a gyflwynwyd i'r ymgynghoriad. Cynhaliwyd gweithdy aml-ddisgyblaeth er mwyn ystyried a ddylid bwrw ati â'r newid gan roi sylw i faterion yn cynnwys canlyniad yr arfarniadau yng nghyd-destun yr adborth, polisi cynllunio a dyletswyddau statudol y National Grid.

4.3.6 Tir gwledig sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion amaethyddiaeth yw ardal y Datblygiad Arfaethedig i raddau helaeth iawn, gyda datblygiadau preswyl yn yr ardal o'i amgylch.

4.3.7 Mae llwybrau mynediad o bwys o fewn ac o amgylch terfynau'r Gorchymyn yn cynnwys yr A55 sy'n rhoi mynediad rhwng Gwynedd ac Ynys Môn dros Bont Britannia.

4.3.8 Mae rhannau o'r safleoedd cadwraeth natur canlynol sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol ac yn rhyngwladol o fewn terfynau'r Gorchymyn:

4.3.9 Ardal Gadwraeth Arbennig, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Safle Ramsar a Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Erdreinniog.

4.3.10 Ardal Gadwraeth Arbennig Menai a'r Sarnau (mae'r twnnel yn mynd o dan y safle hwn)

4.3.11 Nid oes Henebion Cofrestredig sydd wedi'u dynodi'n genedlaethol o fewn terfynau'r Gorchymyn.

- 7.1.3 Ar gyfer prosiectau seilwaith mawr y National Grid, mae'n hanfodol cael hawliau sicr sy'n para'n hir yng nghyd-destun gallu'r National Grid i greu rhwydweithiau seilwaith newydd a diweddarau rhai sy'n bodoli'n barod, ynghyd â chefnogi prosiectau seilwaith mawr ar gyfer cynhyrchu pŵer. Gan hynny, mae'r National Grid yn credu ei bod yn hanfodol sicrhau bod modd rhoi hawddfrentiau parhaol yn hytrach na fforddfrentiau, boed drwy drafodaethau neu drwy gais am Orchymyn drafft, a dyma'r rhesymau pam:
- Mae cael sicrwydd ynghylch y rhwydwaith trawsyrru trydan drwy roi hawliau tir parhaol yn hytrach na hawliau tir dros dro o fudd i'r cyhoedd.
 - Mae hawliau tir parhaol yn hytrach na rhai dros dro yn cyfateb i natur ac oes seilwaith y Datblygiad Arfaethedig ac yn galluogi'r National Grid i gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol fel deiliad y drwydded trawsyrru yng Nghymru a Lloegr.
- 7.1.4 O ran yr adeiladau pen twnnel, ceisir cael budd rhydd-ddaliadol, yn sgil natur y gwaith parhaol sy'n angenrheidiol. O ran y twnnel, gan gynnwys y twnnel o dan y Fenai, ceisir cael stratwm o isbridd, naill ai drwy fudd rhydd-

ddaliadol neu rydd-ddaliad cyfatebol. O ran yr estyniad i is-orsaf Pentir, ceisir cael budd rhydd-ddaliadol.

7.2 CEISIO CAFFAEL

- 7.2.1 Mae'r National Grid wedi ceisio ymwneud yn llwyr â'r holl randdeiliaid y gallai'r datblygiad effeithio arnynt, boed yn unigolion, yn sefydliadau neu'n ymgynghoreion statudol.
- 7.2.2 Mae'r National Grid wedi ymgynghori'n helaeth gyda phawb sydd â budd yn y tir perthnasol er mwyn ceisio osgoi'r angen i ddefnyddio pwerau caffael gorfodol. Mae'r National Grid wedi cynnig telerau ar gyfer sicrhau hawliau a'r tir y mae ei angen drwy ddulliau gwirfoddol.
- 7.2.3 Os oedd hynny'n briodol ar gyfer y llinell uwchben, mae'r telerau wedi cael eu seilio ar Strategaeth Hawliau Tir y National Grid. Mae'r dull cyffredinol o fwrw ati a geir yn y Strategaeth Hawliau Tir wedi'i adolygu a'i ddiwygio'n ddiweddar, ac er mwyn gwella'r tebygolrwydd o ddod i gytundeb gwirfoddol, mae'r telerau wedi cael eu cynnig ar sail newydd a diwygiedig y Strategaeth Hawliau Tir.
- 7.2.4 Pan fydd y Datblygiad Arfaethedig yn ymwneud â lleoliad yr estyniad i'r is-orsaf neu gompowndiau'r Adeilad Pen Twannel, mae'r National Grid yn ffafrio caffael y tir yn wirfoddol ar sail rydd-ddaliadol.
- 7.2.5 Mae'r telerau gwirfoddol ar gyfer y twannel wedi'u seilio ar rydd-ddaliad hir. Mae'r gorchymyn ei hun yn darparu ar gyfer caffael stratwm o isbridd ar rydd-ddaliad, gan nad yw'n bosibl cael budd lles-ddaliad sy'n debyg i'r rhydd-ddaliad cyfatebol drwy gaffael gorfodol. Mae prisio gwerth y tir ar y farchnad wedi creu cost resymol am bob metr linol.
- 7.2.6 At ddibenion llwybro, er mwyn creu'r dyluniad gorau posibl ar gyfer y cynllun, mae'r National Grid wedi ceisio caffael tri eiddo preswyl ar rydd-ddaliad, gyda'r gwerthu'n digwydd drwy gytundeb preifat. Mae dwy o'r prosesau caffael hyn wedi'u cwblhau.
- 7.2.7 Er bod y trafodaethau yn parhau i gaffael trydydd eiddo yn wirfoddol, mae'r cais yn cynnwys dau opsiwn yn Nhalwrn. Nid yw Opsiwn A yn cynnwys pwerau caffael gorfodol o ran y budd rhydd-ddaliadol yn yr eiddo preswyl (gan mai dim ond os byddai modd gwerthu'r rhydd-ddaliad drwy gytundeb preifat y byddai'r National Grid yn defnyddio hynny); mae llwybr Opsiwn B yn mynd o amgylch yr eiddo a dim ond pwerau caffael gorfodol ar gyfer hawliau i hofran dargludyddion dros dir amaethyddol y byddai eu hangen.

7.3 CYNNYDD GYDA'R PROSES AU CAFFAEL

7.3.1 Mae'r National Grid wedi caffael eiddo rhydd-ddaliadol, gyda'r gwerthu'n digwydd drwy gytundeb preifat, yn:

- Cae Adda Fach, Llanfechell, Ynys Môn LL67 0DS
- Bryn Alaw, Rhosgoch, Anglesey LL66 0AB

7.3.2 Mae'r trafodaethau'n parhau ar gyfer caffael y ddau safle compownd ar gyfer yr adeiladau pen twnnel (er mwyn hwyluso gosod y llwybr o dan y ddaear dan Afon Menai) a pharsel o dir ar gyfer yr estyniad i is-orsaf Pentir.

7.3.3 O'r 125 o dirfeddianwyr y mae angen hawliau parhaol ganddynt ar gyfer y llinell drydan uwchben, mae'r National Grid wedi dod i gytundeb â 93 ohonynt. Mae'r trafodaethau'n parhau gyda 32 tîrfeddiannwr. Mae'r National Grid yn y broses o geisio'r buddion angenrheidiol neu'r hawliau drwy gytundebau preifat.

7.3.4 Mae'r trafodaethau'n parhau gyda 12 tîrfeddiannwr y mae angen buddion parhaol ganddynt ar gyfer y twnnel. Mae'r National Grid yn y broses o geisio'r buddion angenrheidiol neu'r hawliau drwy gytundebau preifat.

7.3.5 Ceir nifer o ymgwymerwyr statudol, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid o bwys sy'n berchen ar dir y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn effeithio arno, gan gynnwys y rheini a restrir isod. Mae'r National Grid yn y broses o geisio'r buddion angenrheidiol neu'r hawliau drwy gytundebau preifat.

- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- Network Rail Infrastructure Limited;
- Ystad y Goron;
- Cyngor Ynys Môn;
- Cyngor Gwynedd;
- Wales and West;
- Dŵr Cymru;
- Openreach;
- CTIL;
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol;

- Gweinidogion Cymru;
- Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru;
- Scottish Power Manweb;
- Magnox;
- Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear;
- Pŵer Niwclear Horizon;
- Fibrespeed Limited;
- Zayo Group UK Limited;
- Airwave Solutions Limited;
- Arqiva Limited.

8 Ceisiadau, Gorchmynion a Chydsyniadau Cysylltiedig

- 8.1.1 Y Gorchymyn drafft fydd y prif gydsyniad angenrheidiol er mwyn i'r Datblygiad Arfaethedig allu mynd yn ei flaen. At hynny, ceir mathau eraill o gydsyniadau, trwyddedau a hawliau y bydd eu hangen ar y National Grid gan awdurdodau eraill er mwyn i elfennau penodol eraill o'r datblygiad fynd yn eu blaenau.
- 8.1.2 Mae'r National Grid wrthi'n trafod gyda'r holl gyrrff perthnasol ac nid yw'n ymwybodol o ddim a allai rwystro rhoi'r cydsyniadau hyn. Nid yw'r angen am y cydsyniadau hyn felly yn creu unrhyw rwystrau rhag bwrw ymlaen â'r Datblygiad Arfaethedig.
- 8.1.3 Mae'r cydsyniadau ychwanegol hyn wedi'u rhestru yn y ddogfen Manylion Cydsyniadau a Thrwyddedau Eraill, (**Dogfen 7.15**).

9 Tir Categori Arbennig

- 9.1.1 Mae'r ymgwymerwr yn ceisio pwerau i gaffael hawliau'n orfodol dros Dir Categori Arbennig, ac yn fwy penodol, tir sy'n cael ei ddiffinio fel 'man agored cyhoeddus a 'thir anwahanadwy'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol'. Dangosir y tir hwn yn y Cynlluniau Tir Categori Arbennig a Chynlluniau Tir y Goron (**Dogfen 4.3**). Mae'r Llyfr Cyfeirio (**Dogfen 3.3**) hefyd yn manylu ar y plotiau a ddynodwyd fel Mannau Agored Cyhoeddus a thir anwahanadwy'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a cheir rhagor o fanylion amdanynt yn nhabl 10.1 isod.
- 9.1.2 Mae adrannau 131 ac 132 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn gwneud darpariaeth i ddefnyddio Gweithdrefn Seneddol Arbennig pan fydd Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn awdurdodi caffael tir yn orfodol, neu hawliau dros dir sy'n rhan o gomin, man agored, rhandiroedd gardd gae neu rhandiroedd tanwydd, ac mae hyn hefyd wedi'i gynnwys yn y Llyfr Cyfeirio.
- 9.1.3 Mae'r Weithdrefn Seneddol Arbennig yn golygu bod yn rhaid i'r Senedd gynnal gwaith craffu ychwanegol ar bwerau caffael gorfodol sy'n ymwneud â thir categori arbennig, cyn y gall y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu sy'n cynnwys y pwerau caffael gorfodol ddod i rym. Mae Gorchymyn Cydsyniad Datblygu wedi'i eithrio o'r Weithdrefn Seneddol Arbennig os bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn fodlon bod un o'r eithriadau'n berthnasol.
- 9.1.4 Mae adran 131 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn ymwneud â chaffael yn orfodol unrhyw dir sy'n rhan o gomin, man agored, gardd danwydd neu ardd gae. Mae'r Gorchymyn drafft yn cynnig caffael yn orfodol strata o isbridd, gyda'r arwyneb uwchben y strata hynny yn fan agored. Gan nad yw isbridd ei hun yn fan agored, nid yw Adran 131 yn berthnasol, ac nid oes angen i'r Ysgrifennydd Gwladol fod yn fodlon bod un o'r eithriadau yn Adran 131 yn berthnasol.
- 9.1.5 Mae Adran 132 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn ymwneud â chaffael hawliau yn orfodol dros unrhyw dir sy'n rhan o gomin, man agored, gardd danwydd neu ardd gae. Mae'r Gorchymyn drafft yn cynnig caffael yn orfodol hawliau dros fan agored. Safbwynt y National Grid yw bod yr eithriad yn Adran 132(3) yn berthnasol, sef na fydd Tir y Gorchymyn, o ddefnyddio'r hawl yn y gorchymyn, yn ddim llai manteisiol nag oedd gynt. O ran mannau agored y lleolir y dargludyddion (y gwifrau rhwng y peilonau) uwch eu pen, ni fydd

mwynhad y cyhoedd o'r man agored yn ddim llai manteisiol; bydd y dargludyddion tua 8.1 metr uwch y tir, sy'n caniatáu mynediad i'r man agored fel cynt. O ran y man agored lle gosodir y peilonau, ni fydd mwynhad y cyhoedd o'r man agored yn ddim llai manteisiol; mae gan y peilonau strwythur delltrog agored sy'n caniatáu mynediad o dan y peilon a thrwyddo. Bydd y mynediad i'r man agored yr un fath ag oedd gynt.

- 9.1.6 Mae Tir y Gorchymyn hefyd yn cynnwys tir anwahanadwy'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Os bydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gwrthwynebu cynnwys eu tir anwahanadwy mewn Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft, oni bai y tynnir y gwrthwynebiad hwnnw yn ôl, mae adran 130 o Ddeddf Cynllunio 2008 yn cadarnhau y bydd y Weithdrefn Seneddol Arbennig i'w defnyddio. Mae'r National Grid yn cynnal trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ynghylch cytundeb i gaffael y budd angenrheidiol yn y tir. Ni ragwelir y bydd unrhyw anhawster wrth sicrhau'r cytundeb hwn.

Tabl 10.1 Tir Categori Arbennig

Rhif Plot	y Disgrifiad o'r Tir a'i faint mewn metrau sgwâr	Categori tir
CA3-016	35 metr sgwâr o dir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA3-022	137 metr sgwâr o dir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA3-028a	49 metr sgwâr o dir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA3-032a	14 metr sgwâr o goetir, tir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA3-043	603 metr sgwâr o drac mynediad a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA3-046	280 metr sgwâr o drac mynediad (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA3-047	216 metr sgwâr o leiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA4-001	16 metr sgwâr o goetir a thir gwlyb (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA4-002	31 metr sgwâr o drac mynediad (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA4-003	52 metr sgwâr o leiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA4-005	470 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol, gwrychoedd a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA4-007	4 metr sgwâr o wrychoedd a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored

CA4-008	51 metr sgwâr o drac mynediad a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CA4-009	83 metr sgwâr o drac mynediad a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB3-016	35 metr sgwâr o dir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB3-022	137 metr sgwâr o dir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB3-028a	49 metr sgwâr o dir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB3-032a	14 metr sgwâr o goetir, tir gwlyb a chilffordd gyhoeddus (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB3-043	603 metr sgwâr o drac mynediad a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB3-046	280 metr sgwâr o drac mynediad (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB3-047	216 metr sgwâr o leiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB4-001	16 metr sgwâr o goetir a thir gwlyb (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB4-002	31 metr sgwâr o drac mynediad (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB4-003	52 metr sgwâr o leiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB4-005	470 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol, gwrychoedd a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB4-007	4 metr sgwâr o wrychoedd a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB4-008	51 metr sgwâr o drac mynediad a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
CB4-009	83 metr sgwâr o drac mynediad a lleiniau (Gwarchodfa Natur Cors Erddreiniog)	Man Agored
DA4-027a	735 metr sgwâr o goedlan a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DA4-031	121 metr sgwâr o goedlan a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DA4-035	168 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DA4-036	404 metr sgwâr o goedlan a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DA4-036a	39 metr sgwâr o bont yn cario hen reilffordd ac afon (Afon Ceint), gwelyau a chloddiau ohonynt (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DA4-036b	85 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DA4-044	64 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DA4-046	153 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen	Man Agored

	reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	
DA4-047	64 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-027a	735 metr sgwâr o goedlan a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-031	121 metr sgwâr o goedlan a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-035	168 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-036	404 metr sgwâr o goedlan a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-036a	39 metr sgwâr o bont yn cario hen reilffordd ac afon (Afon Ceint), gwelyau a chloddiau ohonynt (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-036b	85 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-044	64 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-046	153 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
DB4-047	64 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a hen reilffordd (oddi ar ffordd ddiennw, Ceint)	Man Agored
E3-002a	51 metr sgwâr o gae, ardal wyllo, llain ac arglawdd (oddi ar yr A5152, Gaerwen)	Man Agored
F1-138	4046 metr sgwâr o isbridd o dan goetir (oddi ar Ffordd Brynsiencyn, yr A4080, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F1-147	15822 metr sgwâr o isbridd o dan gae, tir amaethyddol a ffordd fynediad breifat (oddi ar Ffordd Brynsiencyn, yr A4080, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F1-148	32355 metr sgwâr o isbridd o dan goetir (oddi ar Ffordd Brynsiencyn, yr A4080, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F1-154	11282 metr sgwâr o isbridd o dan goetir (oddi ar Ffordd Brynsiencyn, yr A4080, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F1-158	2396 metr sgwâr o isbridd o dan flaendraeth (Afon Menai, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F1-160	2484 metr sgwâr o isbridd o dan gae (oddi ar Ffordd Brynsiencyn, yr A4080, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-002	1 metr sgwâr o isbridd o dan gae a choetir (oddi ar Ffordd Brynsiencyn, yr A4080, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-025	28444 metr sgwâr o isbridd o dan adeilad a choetir (Bwthyn Ciper, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

F2-031	45583 metr sgwâr o isbridd o dan ffordd breifat a chae (ffordd ddi-enw, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-034	64016 metr sgwâr o isbridd o dan goetir, pwll a chwrs dŵr (Plas Newydd, Llanddaniel-fab)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-035	29800 metr sgwâr o isbridd o dan flaendraeth (Afon Menai, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-036	1 metr sgwâr o isbridd o dan adeilad (Bwthyn Ciper, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-038	1459 metr sgwâr o isbridd o dan adeilad allanol, trac mynediad a thir hamdden (Canolfan Conway, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-039	52 metr sgwâr o isbridd o dan adeilad allanol, trac mynediad a thir hamdden (Canolfan Conway, Plas Newydd)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-041	44270 metr sgwâr o isbridd o dan flaendraeth (Afon Menai, Parc y Faenol)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-043	418774 metr sgwâr o isbridd o dan gae, tir amaethyddol, coetir, trac mynediad, a pheilonau a llinellau trydan uwchben (Parc y Faenol, Capel y Graig)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F2-049	246 metr sgwâr o isbridd o dan gae a thir amaethyddol (Parc y Faenol, Capel y Graig)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F3-003	9937 metr sgwâr o isbridd o dan gae, tir amaethyddol a choetir (Parc y Faenol, Capel y Graig)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
F3-004	24580 metr sgwâr o isbridd o dan gae, tir amaethyddol a thrac mynediad (Parc y Faenol, Capel y Graig)	Tir yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol

10 Tir y Goron

- 10.1.1 Bydd y Datblygiad Arfaethedig hefyd yn gofyn am gaffael strata o isbridd Tir y Goron ac unrhyw fudd yn y tir hwnnw. Ni all hyrwyddwyr ddefnyddio pwerau caffael gorfodol yn erbyn y Goron. Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i'r National Grid drafod telerau ar sail gwerth y budd a geisir ar y farchnad.
- 10.1.2 Mae Rhan 4 o'r Llyfr Cyfeirio (**Dogfen 3.3**) yn nodi'r plotiau lle mae gan y Goron fudd ynddynt, ac mae Tabl 11.1 isod yn rhoi rhagor o fanylion yn hyn o beth. Mae'r tir sy'n Dir y Goron hefyd wedi'i ddangos ar y Cynlluniau Tir Categori Arbennig a Chynlluniau Tir y Goron (**Dogfen 4.3**).
- 10.1.3 Os dynodir bod budd y Goron yn hawl Categori 1, 2 neu 3 a'i fod felly wedi'i restru yn Rhan(nau) 1, 2 neu 3 y Llyfr Cyfeirio fel sy'n briodol, mae'r budd hwnnw hefyd wedi'i restru yn Rhan 4 y Llyfr Cyfeirio.
- 10.1.4 Bydd budd y Goron yn deillio o unrhyw un o endidau'r Goron, ac nid dim ond Ystad y Goron. Enghreifftiau fyddai endidau/adrannau eraill y Llywodraeth.
- 10.1.5 Pan fydd budd mewn tir gan y Goron neu ar ran y Goron, mae Adran 135(1) o Ddeddf Cynllunio 2008 yn cadarnhau na all Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft gynnwys darpariaeth sy'n awdurdodi ei gaffael yn orfodol. Gan hynny, mewn achosion o'r fath, mae'n rhaid dod i gytundeb gwirfoddol â'r Goron.
- 10.1.6 Mae'r National Grid yn cynnal trafodaethau gydag Ystad y Goron ynghylch cytundeb i gaffael y buddion angenrheidiol yn y tir. Ni ragwelir y bydd unrhyw anhawster wrth sicrhau'r cytundeb hwn. Ystad y Goron sy'n berchen ar isbridd Afon Menai ac mae angen cytundeb felly er mwyn adeiladu a gweithredu adran y twnnel yn y Datblygiad Arfaethedig.

Tabl 11.1 Plotiau sy'n rhan o Dir y Goron

Rhif y Plot	Disgrifiad o'r Tir a'i faint mewn metrau sgwâr	Perchnogion unrhyw Fudd y Goron yn y Tir
E3-009	6004 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus, lleiniau,	Gweinidogion Cymru

	llwybr troed (rhif 41/003/1) a pheilonau a llinellau trydan uwchben (ffordd ddi-enw, Star)	
E3-011	10258 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus, lleiniau ac arglawdd (Gwibffordd Gogledd Cymru, yr A55, Star)	Gweinidogion Cymru
E3-012	1950 metr sgwâr o leiniau a llinellau trydan uwchben (ffordd ddi-enw, Star)	Gweinidogion Cymru
E3-013	1229 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-001	341 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (ffordd ddi-enw, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-002	258 metr sgwâr o leiniau (ffordd ddi-enw, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-003	1918 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (ffordd ddi-enw, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-004	756 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus, lleiniau a llinellau trydan uwchben (ffordd ddi-enw, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-005	92 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (ffordd ddi-enw, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-006	239 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (ffordd ddi-enw, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-007	69 metr sgwâr o lawr caled (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-008	5 metr sgwâr o lawr caled (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-010	147 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a llawr caled (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
E4-011	1140 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus, lleiniau, llwybr troed a llinellau trydan uwchben (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-001	80 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-002	367 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus, lleiniau, slipffordd a llinellau trydan uwchben (Ffordd	Gweinidogion Cymru

	Caergybi, yr A5, Llanfair Pwllgwyngyll)	
F1-003	989 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-004	2 fetr sgwâr o ffordd gyhoeddus (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-005	25 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-006	2 fetr sgwâr o leiniau (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-007	1553 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus, lleiniau a llinellau trydan uwchben (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-008	113 metr sgwâr o leiniau (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-009	2015 metr sgwâr o leiniau, gwrychoedd, lôn feicio, llwybr troed a llinellau trydan uwchben (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-010	92 metr sgwâr o leiniau, gwrychoedd a llwybr troed (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-011	96 metr sgwâr o leiniau, gwrychoedd a llwybr troed (Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-012	149 metr sgwâr o gae a thir amaethyddol (oddi ar Ffordd Caergybi, yr A5, Star)	Gweinidogion Cymru
F1-013	185 metr sgwâr o leiniau a gwrychoedd (ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-014	289 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-019	1 metr sgwâr o gae a thir amaethyddol (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-020	1 metr sgwâr o gae a thir amaethyddol (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-023	507 metr sgwâr o wrychoedd a grisiau mynediad (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair	Gweinidogion Cymru

	Pwllgwyngyll)	
F1-025	218 metr sgwâr o wrychoedd (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-027	6338 metr sgwâr o gae a thir amaethyddol (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-028	989 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a llinellau trydan uwchben (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-030	104 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a llinellau trydan uwchben (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-033	5782 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a gwrychoedd (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-034	888 metr sgwâr o gae a thir amaethyddol (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-038	13 metr sgwâr o gae a thir amaethyddol (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-039	5468 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a gwrychoedd (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-041	1360 metr sgwâr o gae, tir amaethyddol a llinellau trydan uwchben (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-042	12 metr sgwâr o gae a thir amaethyddol (oddi ar ffordd ddi-enw, Llanfair Pwllgwyngyll)	Gweinidogion Cymru
F1-158	2396 metr sgwâr o isbridd o dan flaendraeth (Afon Menai, Plas Newydd)	Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines drwy Hawl Ei Choron
F1-162	1206 metr sgwâr o isbridd o dan Afon Menai a gwely ohoni	Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines drwy Hawl Ei Choron
F2-035	29800 metr sgwâr o isbridd o dan flaendraeth (Afon Menai, Plas Newydd)	Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines drwy

		Hawl Ei Choron
F2-037	298484 metr sgwâr o isbridd o dan Afon Menai a gwely ohoni	Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines drwy Hawl Ei Choron
F2-041	44270 metr sgwâr o isbridd o dan flaendraeth (Afon Menai, Parc y Faenol)	Ei Hardderchocaf Fawrhydi'r Frenhines drwy Hawl Ei Choron
F3-006	112 metr sgwâr o isbridd o dan ffordd gyhoeddus a lleiniau (yr A487, Capel y Graig)	Gweinidogion Cymru
F3-008	10019 metr sgwâr o isbridd o dan ffordd gyhoeddus, lleiniau, cylchfan a llwybr troed (B4547, Capel y Graig)	Gweinidogion Cymru
F3-010	3860 metr sgwâr o isbridd o dan ffordd gyhoeddus, lleiniau a chylchfan (Ffordd osgoi'r Felinheli, Capel y Graig)	Gweinidogion Cymru
F3-015	5345 metr sgwâr o isbridd o dan ffordd gyhoeddus, lleiniau a choetir (Ffordd osgoi'r Felinheli, yr A487, Capel y Graig)	Gweinidogion Cymru
F3-016	4136 metr sgwâr o isbridd o dan ffordd gyhoeddus, lleiniau a choetir (Ffordd osgoi'r Felinheli, yr A487, Capel y Graig)	Gweinidogion Cymru
F3-018	788 metr sgwâr o isbridd o dan goetir (oddi ar yr A487, Capel y Graig)	Gweinidogion Cymru
F3-040	2307 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus, lleiniau, peilonau a llinellau trydan uwchben, a chyfarpar a mast telegyfathrebu (Ffordd Fodolydd, Pentir)	Gweinidogion Cymru
F3-044	278 metr sgwâr o ffordd gyhoeddus a lleiniau (Ffordd Fodolydd, Pentir)	Gweinidogion Cymru

11 Y Cyfiawnhad dros Ymyrryd â Hawliau Dynol

11.1 Y DDEDDF HAWLIAU DYNOL : YR HAWLIAU PERTHNASOL YN Y CONFENSIWN

- 11.1.1 Cafodd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (y Confensiwn) ei ymgorffori yng nghyfraith ddomestig y Deyrnas Unedig drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998.
- 11.1.2 Yr erthyglau yn y Confensiwn sy'n berthnasol wrth benderfynu a ddylid gwneud Gorchymyn Cydsyniad Datblygu sy'n cynnwys pwerau caffael gorfodol yw Erthygl 1 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn, Erthygl 6 ac Erthygl 8.
- 11.1.3 Rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol fod wedi'i ddarbwylllo bod y dibenion mewn gorchymyn sy'n awdurdodi caffael tir yn orfodol yn ddigonol i gyfiawnhau ymyrryd â hawliau dynol y rheini sydd â budd yn y tir.
- 11.1.4 Mae Erthygl 1 o Brotocol Cyntaf y Confensiwn yn gwarchod hawliau pawb i fwynhau eu heiddo'n heddychlon. Ni ellir amddifadu neb o eiddo ac eithrio er budd y cyhoedd ac yn ddibynnol ar amodau a ddarperir mewn cyfreithiau cenedlaethol a rhyngwladol perthnasol. Rhaid i unrhyw ymyrryd ag eiddo fod yn gymesur, ac wrth benderfynu a yw cam penodol yn gymesur, rhaid sicrhau cydbwysedd teg rhwng y budd cyffredinol a'r angen i warchod hawliau'r unigolyn.
- 11.1.5 Os bydd y pwerau y mae'r Datblygiad Arfaethedig yn eu ceisio yn effeithio ar bobl, mae Erthygl 6 yn rhoi'r hawl iddynt gael gwrandawriad teg a chyhoeddus gan driwlynlys annibynnol a diduedd. Byddai'r gofynion hyn yn cael eu diogelu drwy'r gallu i gael adolygiad barnwrol os na chredir bod y broses o wneud penderfyniadau yn un annibynnol yn unol ag ystyr Erthygl 6.
- 11.1.6 Mae Erthygl 8 yn gwarchod hawl unigolyn i gael parch at ei fywyd preifat a theuluol, ei gartref a'i ohebiaeth. Ni chaiff unrhyw awdurdod cyhoeddus ymyrryd â hyn oni bai y gwneir hynny'n unol â'r gyfraith a'i fod yn angenrheidiol er budd diogelwch cenedlaethol, diogelwch y cyhoedd neu lesiant economaidd y wlad, ymhlith pethau eraill. Fel yn achos Erthygl 1 o

Brotocol Cyntaf y Confensiwn, rhaid i unrhyw ymyrryd, os oes cyfiawnhad drosto, fod yn gymesur.

11.1.7 Mae gan y Datblygiad Awdurdodedig y potensial i ymyrryd â hawliau dynol pobl sy'n berchen ar eiddo yn Nhir y Gorchymyn. Mae'r gyfraith yn caniatáu ymyrryd o'r fath cyn belled:-

- Bod y gweithdrefnau statudol ar gyfer gwneud y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn cael eu dilyn a bod achos cryf er budd y cyhoedd dros gynnwys pwerau caffael gorfodol yn y Gorchymyn; a
- Bod unrhyw ymyrryd ag unrhyw hawl yn y Confensiwn yn gymesur â'r nod a gyflawnir.

11.2 CYDYMFFURFIO Â'R CONFENSIWN A'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL

11.2.1 Er ei bod yn debygol y bydd hawliau'r Confensiwn yn berthnasol, mae'r National Grid yn fodlon na fydd y Datblygiad Awdurdodedig yn gwrthdaro â hawliau'r Confensiwn ac y bydd yn gymesur a bod achos cryf er budd y cyhoedd dros fwrw ymlaen â'r Datblygiad Awdurdodedig, a hynny'n drech na'r effaith ar hawliau unigolion. Yn y cyd-destun hwn, bydd gan y rheini y bydd y datblygiad yn effeithio arnynt yn y fath fodd hawl i iawndal.

11.2.2 O ran Erthygl 1 y Protocol Cyntaf ac Erthygl 8, mae'r National Grid wedi pwysu a mesur dau beth, sef ar y naill law effaith ymyrryd â'r hawliau hyn yn y Confensiwn yn sgil cynnwys pwerau gorfodol yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, ac ar y llaw arall y budd posibl i'r cyhoedd pe bai'r Gorchymyn yn cael ei wneud. Yn gyntaf, mae'r National Grid yn credu y byddai budd cyhoeddus sylweddol iawn yn deillio o roi'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu. Dim ond os yw'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu yn rhoi pwerau caffael gorfodol a defnydd dros dro y gellir gwireddu'r budd hwnnw. Mae'r National Grid wedi casglu bod y buddion cyhoeddus sylweddol yn drech nag effeithiau'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ar bobl sy'n berchen ar eiddo o fewn terfynau'r Gorchymyn, mewn modd sy'n golygu na fyddai hynny'n ymyrryd mewn ffordd anghymesur â'u hawliau o dan Erthygl 8 ac Erthygl 1 y Protocol Cyntaf. Mae'r angen am y cysylltiad y bydd y Datblygiad Awdurdodedig yn ei ddarparu wedi'i hen sefydlu ac mae o bwysigrwydd cenedlaethol, fel y dangosir yn Achos Angen y Prosiect (Dogfen 7.1). Yn eilbeth, bydd hawl i iawndal gan y rheini y bydd y pwerau caffael gorfodol neu'r pwerau defnydd dros dro yn effeithio arnynt ac mae gan y National Grid yr adnoddau i roi'r iawndal hwnnw.

11.2.3 O ran Erthygl 6 y Confensiwn, mae trydydd partïon wedi gallu cyflwyno sylwadau ar y cais am y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu wrth iddo gael ei

baratoi. Yn unol â Rhan 5 o Ddeddf Cynllunio 2008, ymgynghorodd y National Grid â'r personau a nodir yn y categorïau a geir yn adran 44 o Ddeddf Cynllunio 2008. Roedd hyn yn cynnwys perchnogion a meddianwyr hysbys y tir o fewn terfynau'r Gorchymyn a'r rheini a allai wneud ceisiadau o dan naill ai adran 10 o Ddeddf Prynu Gorfodol 1965, neu o dan Ran 1 o Ddeddf Iawndal Tir 1973. Byddai hyn yn cynnwys buddiolwyr cyfamodau cyfyngiadol a hawliau eraill y byddai defnyddio'r pwerau yn y Gorchymyn drafft yn eu diystyru.

- 11.2.4 At hynny, gellir cyflwyno sylwadau ar ffurf gwrthwynebiad i'r cais mewn perthynas ag unrhyw hysbysiad a roddir o dan adran 56 o Ddeddf Cynllunio 2008 (sy'n ymwneud â hysbysu pobl ynghylch cais sydd wedi'i dderbyn). Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer cynnal archwiliad manwl o unrhyw gais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, a hynny gan Awdurdod Archwilio annibynnol. Mae'r Archwiliad yn cynnwys craffu'n ofalus ar unrhyw bwerau caffael gorfodol neu bwerau gorfodol eraill, i sicrhau bod cyfiawnhad dros y rhain a'u bod yn gymesur. Er bod yr archwiliad yn broses a gynhelir yn ysgrifenedig yn bennaf, lle bydd yr Awdurdod Archwilio yn cael un cais neu ragor am wrandawriad caffael gorfodol gan bersonau yr effeithir arnynt o fewn y dyddiad dynodedig, rhaid cynnal gwrandawriad os digwydd hyn. Gwahoddir yr holl bersonau yr effeithir arnynt i'r gwrandawriadau caffael gorfodol, ac mae cyfle iddynt wneud sylwadau am y ceisiadau i gaffael yn orfodol.
- 11.2.5 Os caiff y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu ei wneud, gall person sy'n teimlo iddo gael cam herio'r Gorchymyn drwy adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys. O ran anghydfodau ynghylch iawndal, mae gan bersonau yr effeithir arnynt hawl i wneud cais i'r Uwch Dribiwnlys (Siambwr Tir), sy'n dribiwnlys annibynnol.
- 11.2.6 Am y rhesymau hyn, mae'r National Grid yn teimlo na fyddai cynnwys pwerau caffael gorfodol yn groes i hawliau Confensiwn y rheini yr effeithir ar eu tir, ac y byddai'n briodol ac yn gymesur gwneud y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu, gan gynnwys rhoi pwerau ar gyfer caffael gorfodol.

12 Casgliadau

12.1 YR ANGEN AM BROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU (PENNOD 3 YN Y DDOGFEN HON)

12.1.1 Mae Rhannau 2 a 3 o NPS EN-1 yn dweud ei bod yn hanfodol i'r Deyrnas Unedig barhau i gael cyflenwadau sicr a dibynadwy o drydan wrth bontio i economi carbon isel.

12.2 CWMPAS Y PWERAU CAFFAEL GORFODOL (PENNOD 4 YN Y DDOGFEN HON)

12.2.1 Mae'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft yn cynnwys pwerau caffael gorfodol ynghyd â phwerau cysylltiedig eraill.

12.3 DISGRIFIAD O'R TIR Y BYDD PWERAU GORFODOL A PHWERAU ERAILL YN BERTHNASOL IDDO (PENNOD 5 YN Y DDOGFEN HON)

12.3.1 Mae'r tir y bydd pwerau caffael gorfodol yn berthnasol iddo yn cwmpasu ardal tua 744 hectar o faint.

12.4 AT BA DDIBEN Y MAE ANGEN Y PWERAU (PENNOD 6 YN Y DDOGFEN HON)

12.4.1 Mae angen pwerau caffael gorfodol er mwyn gallu adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r datblygiad arfaethedig. Mae'r bennod hon yn dangos pam fod angen caffael y buddion mewn tir a'r hawliau dros dir, a heb wneud hyn ni fyddai'r datblygiad arfaethedig yn bosibl.

12.5 Y CYFIAWNHAD DROS Y PWERAU CAFFAEL GORFODOL (PENNOD 7 YN Y DDOGFEN HON)

12.5.1 Mae'r bennod hon yn pennu'r meini prawf y mae'n rhaid eu bodloni er mwyn awdurdodi caffael gorfodol mewn gorchymyn cydsyniad datblygu. Mae'r Datblygiad Arfaethedig yn rhoi capasiti trawsyrru hanfodol sy'n angenrheidiol er mwyn creu cysylltiad diogel a saff â Gorsaf Bŵer Niwclear Wylfa Newydd.

12.6 DULL Y NATIONAL GRID O GAFFAEL Y TIR ANGENRHEIDIOL A'R HAWLIAU ANGENRHEIDIOL DROS DIR DRWY GYTUNDEB (PENNOD 8 YN Y DDOGFEN HON)

12.6.1 Mae'r bennod hon yn dangos sut y bydd y National Grid yn ceisio creu cytundebau gwirfoddol â thirfeddianwyr ar gyfer yr holl dir angenrheidiol a'r buddion angenrheidiol mewn tir pan fydd hynny'n bosibl.

12.7 CEISIADAU, GORCHMYNION A CHYDSYNIADAU CYSYLLTIEDIG (PENNOD 9 YN Y DDOGFEN HON)

12.7.1 Yn ogystal â'r datblygiad y bydd y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft yn ei ganiatáu, mae angen cydsyniadau eraill sy'n ymwneud â materion fel cydsyniadau Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni chredir bod sicrhau'r rhain yn achosi unrhyw broblemau i Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru.

12.8 TIR CATEGORI ARBENNIG (PENNOD 10 YN Y DDOGFEN HON)

12.8.1 Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar dir sy'n cael ei gategoreiddio fel tir categori arbennig yn Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ceisiadau: Ffurflenni a Gweithdrefn Ragnodedig) 2009.

12.9 TIR Y GORON (PENNOD 11 YN Y DDOGFEN HON)

12.9.1 Bydd y Datblygiad Arfaethedig yn effeithio ar dir y Goron fel y mae hwnnw wedi'i gategoreiddio yn Adran 135 o'r Ddeddf.

12.10 Y CYFIAWNHAD DROS YMYRRYD Â HAWLIAU DYNOL (PENNOD 12 YN Y DDOGFEN HON)

12.10.1 Ni fyddai cynnwys pwerau caffael gorfodol yn mynd yn groes i hawliau Confensiwn y rheini yr effeithir arnynt a byddai'n briodol ac yn gymesur gwneud y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft, a hwnnw'n cynnwys pwerau caffael gorfodol.

12.10.2 Er y bydd y datblygiad yn effeithio ar fuddion preifat, mae achos cryf er budd y cyhoedd dros roi'r pwerau caffael gorfodol sy'n angenrheidiol er mwyn i Brosiect Cysylltiad Gogledd Cymru fynd yn ei flaen.

12.10.3 Am y rhesymau hyn, mae cyfiawnhad dros gynnwys pwerau caffael gorfodol yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft mewn perthynas â thir a hawliau dros dir fel y nodir yn y Llyfr Cyfeirio (**Dogfen 3.3**) ac fel y dangosir yn y Cynlluniau Tir (**Dogfen 4.2**). Dylid rhoi'r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu drafft a dylai hwnnw gynnwys y pwerau hyn.


12.10.4 Am y rhesymau a nodir yn y datganiad hwn, mae cyfiawnhad dros gaffael tir a hawliau'n orfodol, a dros ddefnyddio tir dros dro, fel y nodir yn y Llyfr Cyfeirio ac fel y dangosir yn y Cynlluniau Tir, a hynny yn sgil dull y National Grid o fwrw ati, sydd wedi'i grynhoi isod:

- Dadansoddiad gofalus o'r dyluniad i sicrhau nad oes mwy o dir na mwy o hawliau dros y tir yn cael ei gaffael na'r hyn sy'n angenrheidiol er mwyn adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw'r Datblygiad Arfaethedig;
- Gwirio dosbarth y budd, yr hawl neu'r pŵer mewn perthynas â phob plot er mwyn sicrhau nad oes hawl gryfach yn cael ei rhoi na'r hyn sy'n angenrheidiol;
- Gwneud ymholiadau dygn i sicrhau y cynhelir trafodaethau â'r bobl iawn;
- Ymwneud â phob person sydd â budd yn y tir er mwyn trafod yr hawliau angenrheidiol ar sail wirfoddol;
- Trafodaethau ar sail Strategaeth Hawliau Tir safonol y National Grid. Dull teg a rhesymol o fwrw ati, sydd wedi'i dderbyn ar gyfer prosiectau Gorchmynion Cydsyniad Datblygu yn y gorffennol;
- Parhau i drafod cyn ac ar ôl y broses archwilio.


ATODIAD A – TRAWSTORIAD DANGOSOL O'R TWNEL

Legend / Allwedd


- Indicates rough excavation profile
- Minimum required area for specific cross section
- Land interest area




HORSE-SHOE CROSS SECTION -
 DRILL AND BLAST




HORSE-SHOE CROSS SECTION WITH LEFT
 HAND SIDE NICHE - DRILL AND BLAST




HORSE-SHOE CROSS SECTION WITH RIGHT
 HAND SIDE NICHE - DRILL AND BLAST



ROUNDED INVERT CROSS SECTION
 - DRILL AND BLAST




CIRCULAR CROSS
 SECTION - BORED TUNNEL



COMBINED REQUIRED AND
 OVERALL LAND INTEREST AREA

Notes / Nodiadau

1. This drawing is scaled at paper size A1, therefore any prints taken at smaller sizes will affect accuracy of the measurement units and should not be scaled against.
2. All dimensions in metres.
3. Drawing shows the indicative construction methods, cross sections and areas anticipated to be required for the construction. Actual requirements will be dependant on the ground conditions encountered and the support plus ground treatment installed during tunnelling.



BACKGROUND MAPPING INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY MAP BY PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY ON BEHALF OF THE CONTROLLER OF HER MAJESTY'S STATIONERY OFFICE. © CROWN COPYRIGHT ORDNANCE SURVEY. NATIONAL GRID ELECTRICITY - 100024241. NATIONAL GRID GAS - 100024888.

A	FOR DCO SUBMISSION	KJ	SR	RP	
Issue / Description	Date / Day/Month	Author / Designer	Drawn / Checker	Checked / Designer	Approved / Circumstances

Title / Teitl

THE NATIONAL GRID
 (NORTH WALES CONNECTION PROJECT) ORDER
 DESIGN PLAN: ILLUSTRATIVE TUNNEL CROSS SECTION
 REGULATION 5(2)(o)
 SHEET 3 OF 3

GORCHYMYN NATIONAL GRID
 (PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU)
 CYNLLUN DYLUNIO: DARLUN O GROESTORIAD Y TWNEL
 RHEOLIAD 5(2)(o)
 DALEN 3 O 3





Application Number / Rhif y Cais EN020015			
National Grid Drawing Reference / Cyfeirnod Llunaid National Grid DCO_DE/PS/07_03			
Scale / Graddfa 1:200	Sheet Size / Mudiad Llywodraeth A1	Sheet / Dalen SHEET 3 OF 3	Issue / Cyfnewid A

ATODIAD B – Y CYNLLUN LLEOLIAD



THE NATIONAL GRID (NORTH WALES CONNECTION PROJECT) ORDER
LOCATION PLAN

GORCHYMYN NATIONAL GRID (PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU)
CYNLLUN LLEOLIAD CYFFREDINOL




Legend / Allwedd

- LOCAL AUTHORITY BOUNDARY
- ORDER LIMITS
- SECTION BOUNDARY
- SHEET INDEX

Notes / Nodiadau

This drawing is scaled at paper size A1, therefore any prints taken at smaller sizes will affect accuracy of the measurement units and should not be scaled against.

The OS Boundary Line (Local Authority Boundary) data has been mapped against the OS 1:10,000 Scale Raster mapping and therefore will not be accurate when displayed at a different scale.



BACKGROUND MAPPING INFORMATION HAS BEEN REPRODUCED FROM THE ORDNANCE SURVEY MAP BY PERMISSION OF ORDNANCE SURVEY ON BEHALF OF THE CONTROLLER OF HER MAJESTY'S STATIONERY OFFICE. © CROWN COPYRIGHT ORDNANCE SURVEY. NATIONAL GRID ELECTRICITY - 100024241. NATIONAL GRID GAS - 100024886.

A	FOR DCO SUBMISSION	PK	KG	JS
Issue / Cyhoeddiad	Date / Dyddiad	Remarks / Sylweddau	Drawn / Tynnydd	Checked / Gwirneidd
Approved / Cymharwydd				

Title / Teitl

THE NATIONAL GRID
(NORTH WALES CONNECTION PROJECT) ORDER
LOCATION PLAN

GORCHYMYN NATIONAL GRID
(PROSIECT CYSYLLTIAD GOGLEDD CYMRU)
CYNLLUN LLEOLIAD CYFFREDINOL

Scale / Graddfa	Sheet Size / Mensi / Deddfen	Sheet / Deddfen	Issue / Cyhoeddiad
1:55,000	A1	SHEET 1 OF 1	A

